Creu'r Cysylltiadau - Cyflawni Ar Draws Ffiniau:

Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

Tachwedd 2006

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Pennod	Tud
Rhagair y Gweinidog	i
1. Cyflwyniad	1
2. Rhoi dinasyddion yn gyntaf	11
3. Cydweithio er mwyn cyflawni	20
4. Gweithlu o safon fyd-eang	29
5. Codi gwerth y bunt Gymreig	34
6. Hyrwyddo'r newid: llywodraeth, adnoddau a pherfformiad	38
7. Cydgysylltu'r cyfan	43
Atodiad - Datganiadau polisi ac ymgyngoriadau cysylltiedig cyfredol ac ar gyfer y dyfodol	46

Os hoffech gael gwybodaeth neu fwy o gopïau o'r ddogfen hon, cysylltwch ag:

Uned Creu'r Cysylltiadau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 20801384

Ebost: makingtheconnections@wales.gsi.gov.uk

www.cymru.gov.uk/makingtheconnections

G/309/06-07
ISBN 0 7504 8949 9

Tachwedd
CMK-22-19-007

Cysodwyd mewn teip12pt

© Hawlfraint y Goron 2006

Rhagair

Gwella gwasanaethau cyhoeddus yw un o'r tasgau mwyaf sy'n wynebu Llywodraeth y Cynulliad, ac un o'r rhai mwyaf cyffrous. Rydym wedi buddsoddi'n helaeth yn ein gwasanaethau cyhoeddus ac wedi gwneud cynnydd da wrth wella eu hansawdd a'u gwneud yn fwy hwylus i'w defnyddio. Ond mae llawer eto i'w wneud i sicrhau bod gan Gymru y gwasanaethau cyhoeddus sydd eu hangen arni ar gyfer y 21ain ganrif.

Bydd y camau a nodwn yma yn golygu newid sylweddol yn y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio, ar sail anghenion dinasyddion. Rydym eisiau creu cyfnod newydd yn y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio fel tîm, yn ymateb i ddinasyddion, yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion pobl y tro cyntaf waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaeth ac yn llawer mwy uchelgeisiol wrth hyrwyddo perfformiad.

Y tu ôl i'r geiriau hyn mae rhai heriau mawr: datblygu ymrwymiad cryfach byth o fewn y gwasanaeth cyhoeddus, bod yn fwy effeithlon, meithrin gallu ein gweithlu a symleiddio'r ffordd y mae llywodraeth yn gweithio.

Mae'r camau a gymerwn yn adeiladu ar ein rhaglen ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, *Creu'r Cysylltiadau*, a gyhoeddwyd yn 2004. Cafodd dderbyniad da ac rwy'n ddiolchgar am y cymorth mawr yr ydym wedi'i dderbyn ar draws y gwasanaeth cyhoeddus wrth ei ddatblygu. Mae'r dull gweithredu wedi'i gymeradwyo, bellach, gan yr Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir yn Lleol a gadeiriwyd gan Syr Jeremy Beecham, a gomisiynwyd gennym ni, ac a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2006.

Mae'r adroddiad, *Ar Draws Ffiniau*, wedi'i dderbyn yn eang fel astudiaeth bwysig: rydym yn ddiolchgar i Syr Jeremy a'i gydweithwyr, y Fon Gillian Morgan a Syr Adrian Webb, ac am yr ymchwil ategol gan yr Athro Steve Martin. Eu neges fawr oedd bod yn rhaid inni wthio ein diwygiadau yn bellach ac yn gyflymach.

Bydd ein pwerau deddfwriaethol newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ein helpu i wneud hyn. Er enghraifft, rydym eisiau rhoi mwy o ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus lleol i gydweithredu a byddwn yn ceisio sicrhau'r pwerau angenrheidiol.

Dim ond un prawf sydd i'r camau a gymerwn - a yw'r gwasanaethau yn gwella ar lawr gwlad. O 2008, byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad gwasanaethau cyhoeddus er mwyn i bawb allu barnu ar y cynnydd drostynt eu hunain.

Dywedodd tîm Beecham fod gan Gymru y cyfle i fod yn enghraifft ryngwladol. Rwy'n gobeithio y bydd pawb sy'n gysylltiedig â'n gwasanaethau cyhoeddus yn ymuno â ni yn yr her honno - fe allwn ni gyrraedd y nod.

Sue Essex AC
Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

1. Cyflwyniad

'Gyda Creu'r Cysylltiadau, mae Cymru wedi pennu ei safbwynt mewn modd cwbl glir, ac mae ei hagenda'n haeddu.....ei gweithredu'n bendant'
Beecham (t.69)

1.1 Mae gwella gwasanaethau cyhoeddus yn sylfaenol bwysig i ddyfodol Cymru. Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau am economi ddeinamig, gwell iechyd, dulliau byw o ansawdd uchel mewn cymunedau cynaliadwy ac am Gymru ddwyieithog, mae angen y gwasanaethau cyhoeddus gorau posib ym mhobman. Mae'r papur hwn yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd, yng ngoleuni'r Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir yn Lleol (Adroddiad Beecham), er mwyn cyrraedd ein nod yn gynt, sef gweddnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu a phrofiad pawb sy'n eu defnyddio.

1.2 Yn dilyn buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth y Cynulliad, mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn sefyllfa lawer gwell nawr nag yr oedden nhw adeg datganoli ym 1999. Cafwyd cryn welliannau ym mhob gwasanaeth allweddol, er enghraifft amseroedd aros ysbytai, maint dosbarthiadau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Er bod arolwg[1] a gynhaliwyd eleni yn nodi bod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn fodlon yn gyffredinol â'n gwasanaethau cyhoeddus, rydym yn cydnabod bod eu perfformiad wedi bod yn rhy anghyson - a bod yn rhaid i hyn wella'n ddramatig o hyn ymlaen. Mae angen inni sicrhau gwelliant parhaus yng nghyd-destun twf mwy cyfyngedig yn yr adnoddau sydd ar gael. Gwelwyd newid amlwg mewn gwariant cyhoeddus yn ystod rhan gyntaf y degawd hwn, ond mae angen inni i gyd gydnabod y bydd y gyfradd dwf yn llai o hyn ymlaen.

1.3 Mae disgwyliadau'r cyhoedd o'r gwasanaethau cyhoeddus yn cynyddu ac yn newid. Mae'r newidiadau mewn demograffeg a phwysau cystadleuol economi fyd-eang yn cynyddu'r galw cyffredinol. Ar yr un pryd, mae pobl yn disgwyl amrywiaeth ehangach o wasanaethau cyhoeddus sy'n gallu ymateb

[1] *Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd, Pennod 5*

i anghenion unigol a chymunedol: er enghraifft dewisiadau cwricwlwm ehangach mewn ysgolion a cholegau, a llwybrau mwy amrywiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Nid drwy wella rhyw ychydig ar yr hyn yr ydyn ni'n ei wneud nawr y cyflawnir hyn. Rhaid gweddnewid y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio. Mae angen partneriaethau creadigol a deinamig ar draws y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, gan ymgysylltu â'r cyhoedd i greu momentwm sy'n gallu ymateb i heriau heddiw a rhai'r dyfodol.

1.4 Rydym yn cefnogi'n gryf gasgliad yr Adolygiad, sef y dylai Cymru geisio bod yn fodel rhyngwladol o'r ffordd y mae gwledydd bach yn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen y dewrder a'r creadigrwydd arnom i wneud pethau yn ein ffordd ein hunain er mwyn goresgyn yr heriau a chydio yn y cyfleoedd fel gwlad fach o 3 miliwn o ddinasyddion. Mae angen i'r newid mewn ansawdd ac effeithiolrwydd gynnwys pob agwedd ar ddarparu gwasanaeth, ynghyd ag ymrwymiad i fynd i'r afael ag annhegwch o ran canlyniadau. Yn y penodau i ddod, rydym yn nodi'r rhaglen newid sy'n ofynnol ar gyfer y blynyddoedd sydd o'n blaen.

1.5 Mae'r camau a nodir yn y ddogfen hon yn creu rhaglen bum mlynedd.

Ein Pum Prif Faes Gweithredu erbyn Mawrth 2008

Rhoi Dinasyddion yn Gyntaf

Byddwn yn

- rhoi datganiad clir i ddinasyddion, am y tro cyntaf, o'r safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau allweddol y mae hawl ganddynt iddynt neu y gallant yn rhesymol eu disgwyl, gan gydnabod mai pennu safonau ar lefel leol yw'r peth gorau i'w wneud yn aml. I ddechrau, byddwn yn canolbwyntio ar gyfres gyfyngedig o safonau ac yn ymgynghori'n agos o fewn y llywodraeth a'r tu allan iddi ar ddatblygu yn y dyfodol.
- gweithredu'r cyfnod cyntaf i weddnewid ansawdd gwasanaeth cwsmeriaid i ddinasyddion o dan ein polisi gwasanaeth cwsmeriaid newydd, gan gynnwys gwell defnydd o TGCh. Byddwn yn annog datblygiad mannau mynediad i bobl, yn benodol y rheini sydd ag anghenion sylweddol, i'w gwneud yn haws iddynt ddiogelu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.
- pennu rhaglen i wella ymgysylltiad y cyhoedd yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

(gweler pennod 2)

Cydweithio er mwyn cyflawni - yn lleol

Byddwn yn

- sefydlu Byrddau Gwasanaeth Lleol (ar sail ardal awdurdod lleol) gyda phob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Bydd pob Bwrdd yn tynnu ynghyd y cyrff allweddol sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaeth lleol, yn rhai sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli. Eu tasg fydd gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth a chymryd camau ar y cyd lle mae angen hynny mewn meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau i blant sy'n agored o niwed a gwasanaethau eraill lle mae canlyniadau da yn dibynnu ar gydweithredu. Rydym eisiau cael gwared ar unrhyw arferion o symud costau a phobl o un sefydliad i'r llall. Byddwn yn cefnogi eu datblygiad drwy ddefnyddio'r pwerau deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes a'r pwerau newydd i gryfhau'r dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i gydweithredu, cael gwared ar rwystrau i gydweithredu a dileu unrhyw ofynion biwrocrataidd diangen ar gyrff cyhoeddus. Caiff Llywodraeth y Cynulliad ei chynrychioli ar y Byrddau.
- datblygu'r trefniadau ariannol a llywodraethu ar draws y sectorau i'w gwneud yn haws tynnu ynghyd gyllidebau, staff, cyfleusterau ac adnoddau eraill er mwyn cael y gwerth gorau i bobl a chymunedau.
- cydweithio â Byrddau Gwasanaeth Lleol, mewn ardaloedd penodol i ddechrau, i ddatblygu Cytundebau Gwasanaeth Lleol ar wella gwasanaeth rhwng y Byrddau a Llywodraeth y Cynulliad, gyda photensial i gyflwyno cytundebau mewn sawl ardal mewn rhai achosion. Bydd y Byrddau yn adeiladu ar y profiad gwerthfawr sy'n deillio o Bartneriaethau'r Strategaeth Gymunedol, i roi cyd-raglen weithredu ar waith i wella gwasanaethau. Byddant yn ymgysylltu â dinasyddion wrth lunio gwasanaethau'r dyfodol, gan nodi cyfres realistig o flaenoriaethau y mae pawb yn eu rhannu i wella sefyllfa'r gymuned a gwerthuso perfformiad ar draws llawer o wasanaethau lleol, gan adrodd ar y perfformiad a boddhad dinasyddion.
- ehangu rôl cynghorwyr lleol ac aelodau anweithredol o fyrddau wrth arfarnu perfformiad gwasanaethau lleol - dull ehangach a mwy adeiladol na'r hyn a olygir bellach wrth y term 'craffu'. Byddwn yn datblygu dull sy'n ceisio gwella perfformiad gwasanaeth cyhoeddus mewn ymateb i anghenion dinasyddion ac nad yw'n canolbwyntio ar weld beiau yn unig.

- cefnogi'r Byrddau i sicrhau eu bod yn adeiladu ar waith y partneriaethau sy'n bodoli eisoes fel partneriaethau statudol plant a phobl ifanc a phartneriaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles, sy'n gweithio ar draws ffiniau i gynllunio a gweithredu gwasanaethau integredig a hybu eu datblygiad uchelgeisiol.

Cydweithio er mwyn cyflawni - yn rhanbarthol ac yn genedlaethol

Byddwn yn

- cymryd cyfres bellgyrhaeddol o gamau i gomisiynu, cefnogi a darparu'r gwasanaethau hynny lle bydd gwaith rhanbarthol neu genedlaethol yn golygu gwell ansawdd gwasanaeth neu well defnydd o adnoddau. Dyma rai ohonynt:
  - Pob Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) yn cydweithredu i ffurfio 3 chonsortiwm rhanbarthol i gomisiynu gwasanaethau ysbyty arbenigol, gan ailsianelu'r adnoddau sy'n bodoli eisoes. Ceir trefniadau newydd i bob BILl ar gomisiynu gofal sylfaenol a chymunedol a fydd yn gynyddol gysylltiedig â gwaith y Byrddau Gwasanaeth Lleol newydd.
  - Partneriaethau newydd i reoli gwastraff awdurdodau lleol er mwyn i awdurdodau lleol allu cydweithio i ddatrys problemau rheoli gwastraff cymhleth a datblygu dull o rannu baich y problemau a godir rhwng gwasanaethau.
  - Bwrw ymlaen â Phartneriaeth Blaenau'r Cymoedd, sy'n cwmpasu'r economi, sgiliau, yr amgylchedd, tai ac iechyd a chreu partneriaeth adfywio Môn a Menai.
  - Comisiynu ar y cyd ar draws awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol a dull rhanbarthol o ddelio â gwasanaethau i bobl sydd ag anghenion cyfathrebu cymhleth.
  - Datblygiad parhaus yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant, i helpu pob awdurdod lleol i ddarparu ar gyfer plant sy'n agored i niwed.
  - Annog datblygiad chwe chonsortiwm o gymdeithasau tai i sicrhau effaith fwyaf bosib y grant tai cymdeithasol.
  - Cryfhau consortia trafnidiaeth ranbarthol i ddarparu dull gwell o ddelio â thrafnidiaeth a chludiant.

- gweithredu rhwydwaith TGCH Band Eang i'r Sector cyhoeddus, sy'n cysylltu â phob prif gorff yn y sector cyhoeddus, gan ei gwneud yn bosib cydweithio.
- cefnogi gwaith cyfredol partneriaethau rhanbarthol Cymeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth ddatblygu cydweithredu yn y dyfodol.

(gweler pennod 3)

Gweithlu o safon fyd-eang

Byddwn yn

- cynnwys 3,000 o bobl y flwyddyn o bob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru mewn rhaglenni datblygu cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer arweinwyr o bob lefel yn y gweithlu, gan roi cefnogaeth i staff y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu'r agenda ddiwygio.
- meithrin gallu sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus i reoli newid a gwella ansawdd y broses o gynllunio gweithlu, a chefnogi rhwydweithiau rhagoriaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol AD.

(gweler pennod 4)

Codi gwerth y bunt Gymreig

Byddwn yn

- gweithredu cam nesaf ein hymgyrch effeithlonrwydd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd o £600 miliwn y flwyddyn ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru erbyn 2010:
  - symleiddio swyddogaethau corfforaethol yng nghyrff y gwasanaeth cyhoeddus (ee cyllid ac AD) drwy gam cyntaf rhaglen rhannu gwasanaethau'r GIG (fel yn y Gogledd) a datblygu prosiectau rhannu gwasanaethau mewn llywodraeth leol a sectorau eraill,
  - gwneud gwelliannau eang ym maes caffael,
  - sefydlu capasiti cydweithredol i helpu i wella'r ffordd y caiff adeiladau ysgol eu dylunio, eu caffael a'u hadeiladu ac i hyrwyddo arferion gwell o ran cynnal a chadw'r ystâd ysgol a defnyddio'i hynni.

(gweler pennod 5)

1.6 Bydd pob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn cyfrannu at y gweddnewid sy'n digwydd. Rydym yn cydnabod grym y ddadl yn adroddiad Beecham y bydd angen gweddnewid Llywodraeth y Cynulliad er mwyn cefnogi'r newidiadau sy'n digwydd mewn mannau eraill.

Hyrwyddo'r newid: gweddnewid Llywodraeth y Cynulliad

Rydym yn ceisio hyrwyddo gwelliant parhaus yn y ffordd gydgysylltiedig a symlach yr ydym yn helpu i ddarparu gwasanaethau. Byddwn yn:

- ei gwneud yn bosib i Lywodraeth y Cynulliad ymgysylltu'n uniongyrchol â Byrddau Gwasanaeth Lleol a rhwydweithiau ehangach. Bydd yn golygu bod pob Gweinidog sydd â phortffolio a'r uwch swyddogion perthnasol yn mabwysiadu cylch gwaith daearyddol ar gyfer ymgysylltu â hwy ynghylch blaenoriaethau i wella a darparu gwasanaeth ar draws y ffiniau adrannol. Bydd hyn yn eu galluogi i helpu i gefnogi newidiadau lleol a rhanbarthol i wasanaethau, nodi lle mae angen symleiddio prosesau Llywodraeth y Cynulliad, rhannu gwybodaeth am berfformiad a sicrhau bod y gwelliannau a gyflawnir mewn un rhan o Gymru yn cael eu rhannu ag eraill a'u gweithredu ar draws y wlad;
- sefydlu tîm Perfformio Cymru bach (gan ddefnyddio talent allanol yn ogystal â thalent mewnol) a fydd yn rhoi adroddiadau rheolaidd i Brif Weinidog Cymru a'r Cabinet ar berfformiad y gwasanaethau cyhoeddus, gan wneud yr wybodaeth bresennol am berfformiad yn haws i arweinwyr gwasanaethau a'r cyhoedd eu defnyddio, cydgysylltu ac ategu datblygiad Cytundebau Gwasanaeth Lleol, cefnogi Gweinidogion a swyddogion yn eu rolau daearyddol, a chydgysylltu'r camau dilynol angenrheidiol.
- rhoi adroddiad blynyddol i'r cyhoedd ar berfformiad ein gwasanaethau cyhoeddus.
- sefydlu rhaglen datblygu llywodraethu i sicrhau bod gan gyrff y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a phartneriaethau trawsbynciol fframweithiau llywodraethu clir ac effeithiol a'r cymorth sydd ei angen arnynt i berfformio'n effeithiol.

(gweler pennod 6)

Creu'r Cysylltiadau ac Ar Draws Ffiniau

1.7 Mae'r rhaglen hon yn ddatblygiad naturiol i bolisi *Creu'r Cysylltiadau* ar gyfer diwygio'r gwasanaeth cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2004. Mae ein gweledigaeth yn rhoi lle canolog i ddinasyddion mewn gwasanaethau sy'n effeithlon, sy'n cael eu hyrwyddo gan ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb, sy'n cydweithio'n agos yn hytrach na dyblygu'n wastraffus neu gystadlu ac sydd â phartneriaeth gref gyda'u gweithlu. Croesawyd ein dull gweithredu yn gyffredinol ac fe'i gwnaed yn gynllun gweithredu, sef *Cyflawni'r Cysylltiadau* ym Mehefin 2005. Rydym wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y cynllun hwn ac, fel rhan o'i weithredu, gofynnwyd i Syr Jeremy Beecham a'i dîm ein helpu i weld sut i wneud cynnydd pellach a chyflymach.

1.8 Cadarnhaodd adroddiad yr Adolygiad, *Ar Draws Ffiniau*, bod *Creu'r Cysylltiadau* ar y trywydd iawn a bod cefnogaeth gref iddo. Yn yr un modd, roedd yn dangos bod angen inni weithredu'r newidiadau yn gyflymach ac yn fwy trwyadl. Roedd hefyd yn tynnu sylw at y ffaith ein bod ar dir cadarn wrth ganolbwyntio ar ymddygiad a diwylliannau ac ar wneud y strwythurau sy'n bodoli eisoes yn fwy effeithiol yn hytrach na chreu costau a phroblemau ad-drefnu mawr. Roedd yn galw ar wasanaethau cyhoeddus i fod yn llawer mwy uchelgeisiol ac arloesol, gan newid y ffordd y maent yn ymgysylltu â dinasyddion, yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau ac yn cydweithio â'i gilydd i sicrhau gwell canlyniadau. Rydym yn llawn gefnogi dadansoddiad yr adroddiad gan gynnwys ei ffocws ar ddimensiynau'r newid sydd ei angen: ehangu'r capasiti, lleihau cymhlethdod a chreu diwylliant mwy arloesol ac uchelgeisiol.

1.9 Mae hyn yn golygu adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma a'r trefniadau sy'n gweithio'n dda. Er enghraifft, yn dilyn yr ymarfer i leihau nifer y cynlluniau llywodraeth leol sydd eu hangen arnom (gweler Blwch 6.1), rydym yn gofyn i gyrff lleol ganolbwyntio ar nifer lai o strategaethau a fydd yn arwain yn uniongyrchol at well canlyniadau gwasanaeth i ddefnyddwyr. Bydd angen i'r cylch nesaf o strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a chynlluniau Plant a Phobl Ifanc adlewyrchu'r symudiad hwn mewn pwyslais a hyrwyddo'r symudiad mewn diwylliant a chapasiti sy'n ofynnol gan *Ar Draws Ffiniau*.

1.10 Yn ogystal â'r camau a nodir yn y ddogfen hon, rydym hefyd yn cyhoeddi nifer o bapurau polisi ar wasanaethau a sectorau penodol. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae rhaglen bellgyrhaeddol o welliant a diwygio o'n blaen.

Gweithredu'r rhaglen

Gwerthoedd ac ymrwymiadau

1.11 Er mwyn gweithredu'r rhaglen newid hon, mae angen symudiad clir o ethos y **sector** cyhoeddus sy'n gyfyngedig i ffiniau gwasanaeth neu broffesiynol penodol i ethos **gwasanaeth** cyhoeddus sy'n seiliedig ar hyrwyddo ansawdd a chydraddoldeb. Mae hynny'n golygu ymrwymiad newydd i wasanaethau cydweithredol, moesegol, atebol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar les y dinesydd. Mae'n golygu gwasanaethau cyhoeddus sy'n cydweithio, heb adael i ffiniau rhwng sectorau, sefydliadau neu broffesiynau rwystro'r broses o ddiwallu anghenion pobl.

1.12 Bydd cynnal ein hymrwymiadau i ddatblygu cynaliadwy, Cymru ddwyieithog, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn parhau o'r pwys mwyaf, gan gydnabod arwyddocâd y dyletswyddau presennol, er enghraifft, a'r rhai sy'n datblygu ar bob corff cyhoeddus i ddileu gwahaniaethu yn erbyn pobl a hyrwyddo cydraddoldeb o ran hil, rhyw, anabledd, ffydd, oedran a chyfeiriadedd rhywiol. Wrth sicrhau gwasanaethau cyhoeddus ymatebol i bawb, mae'n hanfodol bod y gwasanaethau yn ymateb i anghenion y gymuned gyfan. Dyma'r hyn y mae'n ei olygu i weithio i wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

1.13 Mae ymgysylltu effeithiol â dinasyddion yn hanfodol i'r agenda weddnewid. Mae'n hanfodol er mwyn hyrwyddo gwelliant gwasanaethau, gan gynnwys y gwasanaethau mwy personol y bydd eu hangen fwyfwy yn y 21ain ganrif. Bydd yr ymgysylltiad hwn yn ein galluogi i daro'r cydbwysedd cywir rhwng galwadau dinasyddion unigol ac anghenion y gymuned gyfan.

Rolau

1.14 Bydd y rhaglen yn effeithio ar bob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a bydd yn golygu:

- bod **Llywodraeth y Cynulliad** yn darparu arweiniad mwy ymarferol. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan fwy amlwg o ran troi polisi yn weithredu effeithiol, datblygu dull mwy cydlynol o bennu blaenoriaethau a safonau gwasanaeth cenedlaethol clir, rhoi cyfeiriad, cefnogaeth a her adeiladol i bartneriaethau gwasanaeth lleol a rhanbarthol. Bydd yn dibynnu'n llai ar systemau biwrocrataidd ac yn rhoi mwy o bwyslais ar gydweithio â phartneriaid i wella perfformiad a gweithredu, a hynny wedi'i gydgysylltu drwy Perfformio Cymru.

- bod **awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gwladol a chyrff eraill** yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud o ran cydweithredu a gwasanaeth cwsmeriaid, gan groesawu newid radical pellach lle bo angen. Bydd hyn yn cynnwys dulliau gweithredu newydd o ymgysylltu â'r cyhoedd yn ogystal â ffurfiau newydd o bartneriaeth a chydweithio yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bydd y ffocws ar ganlyniadau i ddinasyddion yn ei gwneud yn ofynnol bod yn agored i economi gymysg wrth ddarparu gwasanaeth, a hyrwyddo perfformiad gwell.

  Bydd yr holl gyrff hyn yn bartneriaid gweithredol ar Fyrddau Gwasanaeth Lleol yn ogystal â rhwydweithiau rhanbarthol neu genedlaethol o fewn eu sector - wrth gyfuno adnoddau, mynd i'r afael â'r un problemau rhag codi dro ar ôl tro yn y tymor hir, sicrhau bod y cynllunio sy'n rhoi lle canolog i'r dinesydd yn arwain at welliant amlwg yn y gwasanaethau, a chymryd rhan yn y gwaith o gyd-graffu ar wasanaethau lleol. Bydd yr awdurdodau lleol yn darparu'r lleoliad angenrheidiol i'r Byrddau Gwasanaeth Lleol.

- bod y **Sefydliadau'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol** yn datblygu (fel sy'n briodol ar gyfer pob sefydliad) rôl fwy fel eiriolwyr dinasyddion, darparwyr arbenigedd datblygu polisi a gwasanaeth ac fel partneriaid gweithredu drwy strategaeth newydd o dan Gynllun y Sector Gwirfoddol. Bydd angen i economi gynyddol gymysg adlewyrchu'r cyfraniad hwn tuag at helpu i weddnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u gweithredu. Bydd yn defnyddio'r cryfderau sy'n gysylltiedig â'r ffordd y mae'n delio ag anghenion lluosog, ac adnoddau unigol a chymunedol, gan ymateb i'r rhai sy'n tueddu i gael eu heithrio o ddarpariaeth draddodiadol.

- bod **gwasanaethau nad ydynt wedi'u datganoli** yn chwarae eu rhan wrth ddatblygu gwasanaethau mwy cydweithredol ac sy'n rhoi lle mwy canolog i'r dinesydd. Byddwn yn trafod gyda'r gwasanaethau hynny y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt sut y gallant weithio o fewn gwasanaeth cyhoeddus cryfach, mwy cydlynol yng Nghymru, gan adeiladu ar rai enghreifftiau gwych o gydweithredu sydd eisoes yn bodoli.

- bod y **sector preifat** yn gweithredu ei rôl hirsefydledig o ddarparu rhai gwasanaethau cyhoeddus, ac yn cydweithio â Llywodraeth y Cynulliad ac eraill wrth ddatblygu dulliau newydd o ddelio â phartneriaethau a arweinir gan y gwasanaeth cyhoeddus, a hynny er mwyn cael y gwerth gorau o'n buddsoddiad cyfalaf a'n hasedau, o dai fforddiadwy i TGCh. Mae hefyd yn golygu y dylai'r sector fod yn annog ac yn cefnogi secondiadau a chyfnewid swyddi ac yn rhyddhau gweithwyr ar gyfer rolau'r gwasanaeth cyhoeddus, er enghraifft, fel cynrychiolwyr etholedig, llywodraethwyr a swyddogion anweithredol.

Adnoddau

1.15 Rydym yn bwriadu dyrannu £42 miliwn dros y 3 blynedd nesaf i gefnogi *Creu'r Cysylltiadau*, yn ogystal â'r cronfeydd sydd wedi'u clustnodi o fewn cyllidebau Adrannol. Rydym hefyd yn rhagweld darpariaeth o dan y Rhaglen Gydgyfeirio a Chronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi *Creu'r Cysylltiadau* yn y Cymoedd a'r Gorllewin ar gyfer meithrin gallu yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol.

Amserlen

1.16 Rydym yn pennu cerrig milltir clir ar gyfer y rhaglen hyd 2010-11. Byddwn yn monitro'n agos y cynnydd a wnawn ac yn adrodd yn flynyddol i'r cyhoedd, y Cynulliad Cenedlaethol a, thrwy Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus[i], i'n partneriaid. Yn 2010, byddwn yn comisiynu adolygiad annibynnol pwysig i asesu i ba raddau yr ydym wedi llwyddo i gyflawni'r gweddnewidiad a darparu sylfaen ar gyfer gweithredu pellach. Y prawf gwirioneddol fydd y gwelliannau amlwg y mae dinasyddion yn eu profi o ddydd i ddydd.

---

[i] Cadeirir Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus gan Brif Weinidog Cymru ac mae wedi'i sefydlu fel grŵp cyfeirio rhanddeiliaid i roi cyngor i Weinidogion ac adolygu cynnydd y gwaith o roi Cynllun Gweithredu Creu'r Cysylltiadau ar waith a darparu fforwm ar gyfer trafod arferion gorau a syniadau newydd am wasanaethau cyhoeddus a'u gweithredu.
http://www.cymru.gov.uk/makingtheconnections

2. Rhoi Dinasyddion yn Gyntaf

'Rhaid datblygu'r berthynas rhwng dinasyddion a'r gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd effeithiol, a hynny ar frys….mae angen trawsnewid y mecanweithiau ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgysylltu â nhw' **Beecham (t.57)**

2.1 Mae rhoi dinasyddion yn gyntaf a'u cynnwys yn y gwaith o ddylunio gwasanaethau cyhoeddus yn ganolog i sicrhau newid radical. Gallwn sicrhau gwelliannau go iawn - gwelliannau y gall pobl eu cydnabod a'u deall - drwy eu cynnwys yn y gwaith o lunio a chraffu ar ein gwasanaethau. Ni ddylid ystyried pobl yn dderbynwyr gwasanaethau goddefol. Mewn llawer o wasanaethau cyhoeddus, mae cyfraniad pobl yn hanfodol i'r gwasanaeth. Ni allwn wella iechyd, gofal cymdeithasol nac addysg, er enghraifft, heb adeiladu ar y cyfraniadau y mae pobl yn eu gwneud drostynt eu hunain a'u teuluoedd, a chefnogi'r cyfraniadau hynny. Dylai pobl allu cymryd rhan yng ngwasanaethau cyhoeddus eu cymunedau a'u cefnogi.

2.2 Mae ein hymchwil yn dangos bod pobl eisiau i wasanaethau cyhoeddus newid ymhellach i adlewyrchu a diwallu anghenion gwahanol grwpiau; er enghraifft, anghenion pobl sy'n siarad Cymraeg, pobl iau a hŷn, pobl â lefelau gwahanol o sgiliau sylfaenol, pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, pobl ag anableddau, pobl o wahanol ddiwylliannau a thueddfryd a phobl sy'n agored i niwed. Er enghraifft:

- Mae angen chwyldro arnom o ran sut mae pobl yn gallu **cysylltu â gwasanaethau**, yn ansawdd gofal cwsmeriaid, yn yr ymateb a brofant ac yn eu mynediad i gymorth pan aiff pethau o'i le. Mae hyn yn cynnwys creu pwyntiau cyswllt unigol ac opsiynau newydd ar gyfer galluogi pobl i ymgysylltu â gwasanaethau yn ôl eu hamgylchiadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y rhai sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n anodd eu cyrraedd drwy, er enghraifft, eiriolaeth ac allgymorth effeithiol, dulliau hwylus o gyfathrebu i'r rheini sydd â nam ar eu synhwyrau, neu drwy ieithoedd eraill. Mae hefyd yn golygu manteisio ar botensial y ffrwydriad yn nefnydd pobl o TGCh yn fwy effeithiol.

- Mae angen inni fesur **boddhad y cyhoedd** ac adrodd arno - a defnyddio profiad dinasyddion o gael at wasanaethau er mwyn gwella prosesau busnes a hyrwyddo perfformiad. Rhaid i hyn adlewyrchu profiadau ac anghenion pob dinesydd gan gynnwys y sawl sy'n agored i niwed a'r anodd ei gyrraedd.
- Mae angen inni gryfhau'r **bartneriaeth weithredol** rhwng gwasanaethau a dinasyddion i sicrhau gwell canlyniadau - er enghraifft, wrth ailgylchu gwastraff cartref, gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc, a helpu pobl anabl neu'r sawl sydd â chyflyrau iechyd cronig i gael bywyd o'r ansawdd gorau. Mae llwyddo'n dibynnu ar waith tîm rhwng dinasyddion a'r sawl sy'n darparu'r gwasanaethau.
- Mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd o **roi llais cryfach i bobl** yn eu cymunedau - ar lefel cymunedau lleol a chymunedau o ddiddordeb - wrth lunio gwasanaethau a blaenoriaethau i ddiwallu anghenion presennol ac ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, mae angen inni adeiladu ar y gwaith arloesol, ardderchog sydd eisoes yn cael ei wneud i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r gwasanaethau a dderbyniant yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

2.3 Yn bennaf oll, mae angen inni sefydlu ethos o roi dinasyddion yn gyntaf fel ein ffordd ni o sicrhau gwelliant parhaus yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gyrff y gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, ddefnyddio dull integredig o ymgysylltu â phobl yn holl ddimensiynau eu cysylltiadau â'r cyhoedd - gwell gwasanaeth i gwsmeriaid, opsiynau gwasanaeth hyblyg, ymgysylltu cryfach ac atebolrwydd cyhoeddus cliriach. Mae blychau 2.1, 2.2, 2.3 a 2.4 yn enghreifftiau.

Blwch 2.1

Cyfranogiad cleifion yn y GIG

Mae Canolfan newydd bwrpasol Apwyntiadau i Gleifion yn Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych yn darparu amgylchedd tawel, lle caiff staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig eu rhyddhau i roi eu holl sylw i gleifion (drwy rannu arferion fel paratoi nodiadau achos). Mae hyn yn gweddnewid ansawdd y gwasanaeth a gynigir i gleifion. Un datblygiad yw hwn mewn cyfres ar draws y GIG er mwyn bod yn fwy ymatebol i gleifion, ac mae'n gysylltiedig â'r Rhaglen Canllaw Arfer Da. Mae'r Cyfweliadau Darganfod a gyflwynwyd yng Ngwent yn enghraifft arall. Mae cyfrifon dienw cleifion o'u profiad mewn nifer o feysydd arbenigol yn cael eu defnyddio i wella gwasanaethau.

Blwch 2.2

Canolfannau gwasanaeth cwsmeriaid lleol

Mae Canolfan Gyswllt Cyngor Dinas Casnewydd yn un o nifer gynyddol o ganolfannau cyswllt mawr a ddatblygwyd mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, sy'n gweddnewid y ffordd y gall dinasyddion gael at wasanaethau lleol. Un o nodau'r Ganolfan yw bod 70-80% o ymholiadau yn cael eu hateb y tro cyntaf y bydd rhywun yn ffonio. Mae hefyd yn galluogi dinasyddion i ofyn cwestiynau/gwneud ceisiadau drwy un alwad. Hwn yw prif bwynt cyswllt y Cyngor ac un rhif sydd iddo. Mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener (8.00 - 20.00) ac ar ddydd Sadwrn (9.00 - 13.00). Mae gwasanaethau tebyg mewn awdurdodau fel Sir Benfro, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Blaenau Gwent, Tor-faen, Rhondda Cynon Taf a Sir Ddinbych yn newid delwedd gwasanaethau cyhoeddus.

Blwch 2.3

Cryfhau Partneriaeth Weithredol

Gall pobl sydd ag anableddau brofi lefel uchel o wahaniaethu yn eu herbyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac yn benodol yn agwedd unigolion a chymdeithas yn gyffredinol. Bu hyn yn ysgogiad i Gyngor Sir Caerfyrddin ddatblygu rhaglen hyfforddi i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd ag anabledd. Roedd y rhaglen yn ymchwilio i faterion cydraddoldeb i bobl anabl ac yn codi ymwybyddiaeth o wahaniaethu yn eu herbyn. Roedd defnyddwyr y gwasanaethau yn rhan o'r gwaith o lunio cynnwys a dyluniad yr hyfforddiant er mwyn diwallu eu hanghenion yn y ffordd orau. Mae'r sawl sydd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant wedi cael eu grymuso a bellach maent yn cymryd rhan weithredol yn y broses o ddatblygu'r cynlluniau a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mae sawl un o'r rhai a dderbyniodd yr hyfforddiant wedi mynd ymlaen i fod yn hyfforddwyr eu hunain.

Blwch 2.4

Darparu Gwasanaethau Dwyieithog

Mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru yn enghraifft dda o ddilyn egwyddor cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal amrywiaeth eang o fentrau, gan gynnwys cynllun cadét i annog nyrsys sy'n siarad Cymraeg, darparu gwybodaeth ddwyieithog mewn gwahanol gyfryngau i gleifion sydd angen llawdriniaeth gataract, a hyfforddiant Gymraeg wedi'i theilwra i staff ysbytai sydd ag anghenion gwahanol. Yn 2004 a 2005, enillodd yr Ymddiriedolaeth y wobr gyntaf yng ngwahanol gategorïau Cynhadledd y Gymraeg mewn Gofal Iechyd ac fe'i cydnabuwyd hefyd am ei 'harfer nodedig' gan y Comisiwn Gwella Gofal Iechyd.

2.4 Isod ceir ein blaenoriaethau gweithredu er mwyn rhoi dinasyddion yn gyntaf.

Blaenoriaeth

2.5 **Gweddnewid Gwasanaeth Cwsmeriaid** - ei gwneud yn haws i bobl leoli a chysylltu â'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, ansawdd eu profiad a'r hawl i gael cymorth.

Camau Gweithredu	Gan bwy a phryd
Polisi gwasanaeth cwsmeriaid, cynlluniau gweithredu a chanllawiau arfer da cenedlaethol gan ddilyn ein 5 egwyddor ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid (gwybodaeth a mynediad, parch y naill at y llall, ymateb i anghenion unigol a rhwystrau, anghenion iaith, cymorth a chywiro problemau).	Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar yr egwyddorion craidd ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid nawr *(Adeiladu Gwell Gwasanaeth Cwsmeriaid - Canllawiau Arfer Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus)*[*]. Lansio Cynllun Gweithredu 2007, gyda chymorth arweinyddiaeth a chamau i ddatblygu'r gweithlu.
Prosiect i sefydlu gallu a pherfformiad sylfaenol cyfredol gwasanaeth cwsmeriaid, gan gynnwys dadansoddiad o drefniadau cyswllt cwsmeriaid.	Llywodraeth y Cynulliad 2007-08.
Creu opsiynau i bobl ag anghenion gwahanol gan gynnwys canolfannau cyswllt cwsmeriaid, siopau-un-stop, eiriolaeth ac allgymorth, e-fynediad, er enghraifft;	

[*] www.cymru.gov.uk/makingtheconnections

Camau Gweithredu	Gan bwy a phryd
Gwell cydweithio i hwyluso mynediad i ofal iechyd brys/heb ei drefnu.	Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori nawr.
Siopau-un-stop Cysyllt-oed i bobl hŷn i'w helpu ym maes budd-daliadau a materion eraill.	Yr Adran Gwaith a Phensiynau / awdurdodau lleol yn cwmpasu 20 ardal hyd yma.
Cynllun Prentis Iaith Arwyddion Prydain - BSL Futures - a chyngor ar ymarfer da o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yn BSL.	Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid: cymhwyso 30 o brentisiaid erbyn 2009, cyhoeddi cyngor ar ymarfer da erbyn dechrau 2007.
Gwella mynediad gwasanaeth i bobl anabl yn unol â'r Cynllun Cydraddoldeb arfaethedig i Bobl Anabl, er enghraifft, canllawiau i'w gwneud yn fwy hwylus mynd i weld meddyg teulu, rhaglen i wella mynediad pobl anabl i weithgareddau chwaraeon a hamdden, a dulliau ategol o sicrhau bod pobl anabl yn derbyn gwybodaeth a chyngor da am dai.	Cyhoeddi cynllun Llywodraeth y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2006; ei weithredu 2006-2008; a'i adolygu 2008.
Cymryd camau, yn unol â'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, i sicrhau bod sefydliadau yn rhoi ystyriaeth i ofynion gwahanol grwpiau ethnig wrth gynnig gwasanaeth i gwsmeriaid, er enghraifft, gweithgarwch wedi'i dargedu i wella'r ymateb i'r cyfleoedd addysgol ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac arwain landlordiaid cymdeithasol i wella hyfforddiant cydraddoldeb hiliol i staff ac aelodau'r bwrdd.	Gweithredu'r cynllun cydraddoldeb hiliol 2006-2008 a'i adolygu 2008.
Gwasanaethau eiriolaeth a chyngor	
Datblygu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc, gan gynnwys comisiynu a rheoleiddio gwasanaethau eiriolaeth, er mwyn gwella ansawdd a'r ardal a gwmpesir.	Ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad 2006.
Sefydlu Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru i helpu i sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yng Nghymru yn cael eu diogelu - gan roi gwybodaeth, eiriolaeth a chymorth.	Llywodraeth y Cynulliad 2007.
Datblygu Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol i Gymru	Llywodraeth y Cynulliad 2007.
Defnyddio canlyniadau o'n harolwg dinasyddion 2006 a 2007 i dargedu gweithgareddau a fydd yn datblygu ac yn cefnogi'r seilwaith gwasanaethau eiriolaeth a chyngor (ee cyngor tai) yng Nghymru.	Llywodraeth y Cynulliad 2007.

Camau Gweithredu	Gan bwy a phryd
Y rhyngrwyd ac e-wasanaethau eraill	
Caiff gweledigaeth newydd ei defnyddio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus wedi'u e-alluogi a mynediad wedi'i weddnewid i ddinasyddion er mwyn alinio a ffocysu datblygiadau TGCh, cynlluniau peilot a rhanddeiliaid ar ddarparu gwell mynediad i wasanaethau i bob dinesydd.	Llywodraeth y Cynulliad Gaeaf 2006-07.
Defnydd mwy effeithlon o wybodaeth a data am gleifion i helpu i wella gofal cleifion: bydd nifer o gynlluniau peilot a datblygiadau'r GIG yn darparu gwybodaeth iechyd am gleifion yn gyflymach ac yn fwy diogel i glinigwyr: maent yn cynnwys	Mae yna achos busnes ar gyfer eu datblygu:
• *Fy Iechyd Ar-lein*, (cwblhawyd y cam peilot yn 2006), gan roi mynediad ar-lein i gleifion i'r grynodeb o'u cofnod iechyd;	Gweithredu 2007-10.
• cofnod iechyd unigol er mwyn cael mynediad cyflym i wybodaeth am iechyd ar gyfer (i) lleoliadau brys a (ii) triniaeth iechyd hirdymor;	Gweithredu 2007-10 (i) a 2008-12 (ii).
• porth clinigol, sy'n rhoi un pwynt mynediad i staff meddygol i ohebiaeth, canlyniadau a digwyddiadau'n ymwneud â chleifion.	Gweithredu 2007-10.
Cymorth	
Yn sgil sefydlu gwasanaeth unedig yr Ombwdsmon yn llwyddiannus yng Nghymru, sefydlu gwasanaeth hwyluso proses gwynion Annibynnol y GIG.	Llywodraeth y Cynulliad 2007.

Blaenoriaeth

2.6 Mesur boddhad dinasyddion - fel bod gwasanaethau lleol a chenedlaethol yn dysgu am brofiad a boddhad pobl gyda'u gwasanaethau, yn adrodd ac yn gweithredu arno, a hynny yn erbyn safonau gwasanaeth cenedlaethol a lleol clir.

Camau Gweithredu	Gan bwy a phryd
Rhaglen ymchwil dinasyddion Llywodraeth y Cynulliad lle rydym yn gofyn am farn a phrofiadau dinasyddion o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys ffocws penodol ar leiafrifoedd, pobl dan anfantais a phobl sy'n agored i niwed.	Y rhaglen ar y gweill, canlyniadau cyntaf 2006-07.
Gwell gwybodaeth i ddinasyddion am safonau gwasanaeth cenedlaethol - mynediad dinasyddion a'u hawliau.	Gwneud y safonau sy'n bodoli eisoes yn fwy tryloyw a hawdd cael atynt 2007-08.
Fframwaith arolwg cenedlaethol ar gyfer ymchwil i foddhad lleol, sy'n targedu byrddau gwasanaeth lleol newydd, fel eu bod yn monitro boddhad dinasyddion a chymunedau â gwasanaethau lleol yn rheolaidd mewn ffordd gyffredin, gan gynnwys safbwyntiau pobl leiafrifol, pobl sydd dan anfantais a phobl sy'n agored i niwed.	Pob partneriaeth yn adrodd ar foddhad bob blwyddyn o 2009.

Blaenoriaeth

2.7 Cryfhau partneriaeth weithredol - fel bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael cyfle am fwy o ddewisiadau a phenderfynu ynghyd â'r darparwyr sut y dylid darparu'r gwasanaethau.

Camau Gweithredu	Gan bwy a phryd
Y Rhaglen Cleifion Arbenigol yn helpu pobl i ddatblygu sgiliau hunan-reoli newydd i ddelio ag effaith byw gyda chyflwr/cyflyrau iechyd hirdymor ar eu bywydau bob dydd.	Y rhaglen ar y gweill, yn cael ei chyflymu oherwydd llwyddiant cychwynnol cryf.
Ailystyried gwasanaethau cymdeithasol fel y bydd **defnyddwyr gwasanaeth,** gofalwyr a'u teuluoedd sydd wedi'u haddysgu'n well, yn fwy gwybodus ac wedi'u grymuso, a gefnogir gan wybodaeth sy'n haws cael gafael arni, wedi lledaenu'n fwy ac ar gael yn annibynnol yn ogystal â rheolaeth gyllidebol, yn gallu ac yn disgwyl chwarae rôl fwy gweithredol wrth reoli eu sefyllfa eu hunain, asesu eu hanghenion eu hunain, dewis eu darparwyr gofal eu hunain, a rheoli eu hadnoddau. Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r disgwyliadau uwch hyn wrth gynllunio a darparu gwasanaeth.	Ymgynghorir ar *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* ar hyn o bryd gyda'r cynllun gweithredu.*
Opsiynau gwasanaeth hyblyg	
Mae llwybrau gofal yn disodli gofal adweithiol, cyfnodol i bobl â chyflyrau hirdymor â chyfres o wasanaethau rhagweithiol, sydd wedi'u cynllunio a'u rheoli.	Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (AGAAGI) yn cefnogi Rhaglen Datblygu Llwybrau 2006-2008.
Llwybrau Dysgu 14-19 yn galluogi myfyrwyr i ddewis cyrsiau a ffyrdd o ddysgu sy'n gweddu iddynt.	Rhwydweithiau lleol yn eu lle yn 2003 - Cynllun Gweithredu hyd 2010 ar y gweill.

* www.wales.gov.uk/consultations

Blaenoriaeth

2.8 Gwasanaethau sy'n addas i ddinasyddion - gan roi llais cryfach i unigolion a chymunedau o ran y ffordd y dylunnir, y darperir ac y llywodraethir gwasanaethau.

Camau Gweithredu	Gan bwy a phryd
Cyfranogiad y cyhoedd	
Polisi a chynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud llais y gymuned a dinasyddion yn ganolog i'r ffordd y dylunnir, y darperir ac y llywodraethir gwasanaethau, gan ddefnyddio pob math o dechnegau.	Polisi a chynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad erbyn Mai 2007.
Strategaeth y sector gwirfoddol, egluro rôl y sector wrth hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad y dinesydd.	Ymgynghoriad Rhagfyr 2006 i Fawrth 2007.
Plant y phobl ifanc	
Fframwaith yn ei le i'w gwneud yn bosib i blant a phobl ifanc gyfranogi. Y cam nesaf yn canolbwyntio ar gyfranogiad cynyddol a sefydlu arferion da, a chynnwys plant a phobl ifanc anabl, a'r rheini o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.	Fforymau ieuenctid awdurdodau lleol; y Ddraig Ffynci, fforwm ieuenctid Cymru gyfan. Mae'n ofynnol yn statudol i bob ysgol i fod â chynghorau ysgol o dan y trefniant newydd erbyn Tachwedd 2006 (ac eithrio ysgolion babanod a meithrin).
Ymestyn hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru	
10 hawl sylfaenol sydd ar gael i bob person ifanc 11-25 mlwydd oed.	Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i ddatblygu dull strategol ym mhob awdurdod lleol a strategaeth gyhoeddusrwydd ar ymestyn hawliau i fod ar y gweill, Gaeaf 2006.
Bod yn atebol i'r cyhoedd	
Datblygu opsiynau ar gyfer arfarnu perfformiad cynhwysol, gan gynnwys cylchoedd gwaith trawsffiniol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, aelodaeth ehangach o baneli craffu a sefydlu ymgynghori effeithiol.	Datganiad polisi llywodraeth leol Llywodraeth y Cynulliad, Mawrth 2007.

3. Cydweithio Er Mwyn Cyflawni

'Mae gan bartneriaeth..... rôl allweddol i'w chwarae wrth gyflawni gwelliannau sylweddol mewn gwasanaethau..... rhaid sicrhau bod saernïaeth gyfan y gwasanaethau cyhoeddus, a diwylliant, sgiliau ac ymddygiad y rheini sy'n gweithio o'u mewn, yn fwy ffafriol i ddarpariaeth a rennir' **Beecham (t.62)**

3.1 Mae rhoi'r dinesydd yn gyntaf yn golygu bod Llywodraeth y Cynulliad a phob partner darparu lleol yn cydweithio'n llawer agosach er mwyn creu rhwydwaith mwy effeithiol o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd yn gyflym, yn bwrpasol ac yn effeithiol, heb greu biwrocratiaethau a phrosesau newydd. Mae rhoi sylw penodol i sicrhau canlyniadau gwell i bobl yn golygu:

- casglu a rhannu gwybodaeth wrthrychol am anghenion dinasyddion a chymunedau;
- bod pob sector yn cymryd y gwahanol gamau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, gan gynnwys camau i sicrhau gwell gwerth am arian ar draws y cyllidebau a chytuno ar gyd-raglenni gweithredu;
- bod yn atebol i'r boblogaeth leol am berfformiad gwasanaeth a gwella'r gwasanaethau yn barhaus er mwyn gwneud iddynt weithio'n well i ddinasyddion

Byrddau Gwasanaeth Lleol

3.2 O ddechrau 2007/08, a thrwy gydol y flwyddyn, rydym eisiau i sefydliadau darparu gwasanaeth lleol ddechrau'r broses o sefydlu Byrddau Gwasanaeth Lleol i arwain y gwaith o weithredu'r strategaeth gymunedol a'r blaenoriaethau strategol cenedlaethol y cytunwyd arnynt, a hynny ym mhob sector. Bydd y Byrddau yn datblygu o Bartneriaethau cyfredol y Strategaeth Gymunedol ac yn adeiladu ar eu profiad gwerthfawr hwy, gan ychwanegu at hynny y nod o gydweithio ar ddarparu gwasanaeth.

3.3 Drwy'r Byrddau Gwasanaeth Lleol, disgwylir yn gynyddol i reolwyr ac arweinwyr lleol weithio mewn timau ar draws y sectorau, canolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol, mynd i'r afael â phroblemau sy'n codi dro ar ôl tro a'u goresgyn. Dyma rai o'r camau:

- monitro perfformiad gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardal;
- hyrwyddo a threfnu gwaith ar y cyd lle gwelir bod angen gwneud hynny;
- cyfuno adnoddau ac arbenigedd, datblygu'r gweithlu ac ailgynllunio systemau;
- ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau i sicrhau bod y gwasanaethau yn diwallu eu hanghenion;
- datblygu Cytundebau Gwasanaeth Lleol gyda Llywodraeth y Cynulliad lle bydd pob carfan yn ymrwymo i raglen weithredu y cytunir arni er mwyn cyflawni cyfres o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol

3.4 Rydym yn rhagweld y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn hwyluso cyfarfod cyntaf y Byrddau Gwasanaeth Lleol ac mai awdurdodau lleol fydd yn eu trefnu o hynny allan, gyda'r Byrddau eu hunain yn penderfynu ar y Cadeiryddion.

3.5 Mae Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol, fel cyrff sy'n atebol yn ddemocrataidd, yn cydnabod y problemau sy'n gallu codi wrth drefnu partneriaethau. Er mwyn llwyddo, mae angen partneriaeth rhwng cyrff cyfartal a rhaid i bawb ddeall bod yr un sofraniaeth gan bawb. Wrth harneisio'r cyfraniad y gall pob partner ei wneud, yn gyhoeddus, yn breifat ac yn wirfoddol, ni ellir cael disgwyliad o hierarchaeth yn swyddogaethau Byrddau Gwasanaeth Lleol.

3.6 Nid disodli'r partneriaethau allweddol sy'n bodoli eisoes fel y rhai ar gyfer Diogelwch Cymunedol, Iechyd a Lles a Phlant a Phobl Ifanc yw bwriad Byrddau Gwasanaeth Lleol. Yn hytrach, hwy fydd y canolbwynt y gall y partneriaethau eraill hyn weithredu o'u cwmpas.

3.7 Byddwn yn datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer adrodd ar berfformiad gwasanaethau lleol a boddhad pobl gyda hwy, i helpu Byrddau a hwyluso'r broses o arfarnu perfformiad pob sector yn lleol ac yn genedlaethol.

3.8 Bydd y ffocws ar wella darpariaeth y strategaeth gymunedol a blaenoriaethau strategol i wasanaethau cyhoeddus Cymru, gan symud

o gynllunio ar y cyd i rannu'r gweithredu. Byddwn yn cefnogi'r Byrddau wrth ddatblygu'r trefniadau sefydliadol o ran diwylliant, llywodraethu ac atebolrwydd sy'n ofynnol er mwyn llwyddo.

3.9 Byddwn yn sefydlu rhaglen i gefnogi datblygiad y Byrddau a Chytundebau Gwasanaeth Lleol mewn ardaloedd penodol i ddechrau. Byddwn yn datblygu fframwaith cadarn i gefnogi Byrddau Gwasanaeth Lleol drwy wneud y mwyaf o'r ddeddfwriaeth bresennol, cael gwared ar bethau sy'n rhwystro cydweithredu, lleihau'r baich rheolau a rheoliadau a chyflwyno dyletswydd i weithio ar y cyd.

3.10 Bydd Gweinidogion y Cynllun Gofodol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gyfraniad Llywodraeth y Cynulliad i'r Byrddau yn eu gwahanol ardaloedd ac, mewn ymgynghoriad â'r Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus, yn llofnodi'r Cytundeb Gwasanaeth Lleol. Byddwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at bob Bwrdd drwy grŵp o uwch swyddogion a swyddogion eraill a benodir i helpu i fynd i'r afael â rhwystrau a sicrhau y cyfathrebir yn effeithiol ag Adrannau. Bydd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad sy'n cefnogi'r Byrddau Gwasanaeth Lleol yn gweithio mewn partneriaeth agos â thimau Perfformio Cymru a'r Cynllun Gofodol.

3.11 Bydd angen trefniadau arfarnu perfformiad a herio newydd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd i gyfateb i gyfrifoldebau'r Byrddau ar draws y gwasanaeth cyhoeddus. Dylai'r rhain fod dan arweiniad Aelodau a etholir gan yr awdurdod lleol, a dylent gynnwys rhanddeiliaid eraill fel cyfarwyddwyr anweithredol a llywodraethwyr sefydliadau eraill y gwasanaeth cyhoeddus, cynghorwyr cymunedol, aelodau o gynghorau iechyd cymunedol, arbenigwyr allanol, mudiadau'r sector gwirfoddol a dinasyddion fel y bo'n briodol. Dylai'r ffocws fod ar ddatrys problemau ac archwilio'n fanwl y perfformiad presennol a'r llwybr i safonau uwch. Byddwn yn cydweithio â CLlLC a rhanddeiliaid eraill i wneud y broses arfarnu perfformiad yn fwy effeithiol o ran hybu gwelliant, a byddwn yn cynnwys y model newydd yn y fframwaith statudol os bydd angen. Bydd tîm Perfformio Cymru yn gyfrifol am ymgynghori ynghylch datblygu gwybodaeth benodol am berfformiad, a'i sicrhau, i gefnogi Byrddau Gwasanaeth Lleol.

3.12 Bydd Byrddau Gwasanaeth Lleol yn arwain y gwaith o weddnewid y dull o gyflwyno gwasanaeth lleol a ragwelir yn adroddiad Beecham. Er mwyn cefnogi Partneriaethau'r Strategaeth Gymunedol sy'n bodoli eisoes wrth ddatblygu'r gallu a'r sgiliau i gyflawni hyn, rydym yn bwriadu gweithredu hyn yn raddol. Yn ystod 2007-08, rydym yn rhagweld y bydd Byrddau Gwasanaeth

Lleol yn cael eu sefydlu ym mhob rhan o Gymru. Y flwyddyn honno bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio ar brosiectau datblygu gyda nifer o Fyrddau i lunio Cytundebau Gwasanaeth Lleol ar gyfer 2008-09 a phenderfynu ar y trefniadau cyflawni gweithredol sydd eu hangen er mwyn gwneud i hyn ddigwydd. Bydd hyn yn sicrhau y gall y cam nesaf o Gytundebau Gwasanaeth Lleol ddysgu drwy brofiad go iawn ac y caiff ei weithredu'n effeithiol erbyn 2010.

Cytundebau Gwasanaeth Lleol

3.13 Yn dilyn proses negodi, bydd Cytundebau Gwasanaeth Lleol yn ymrwymo pob Bwrdd a Llywodraeth y Cynulliad i weithredu ar y cyd er mwyn sicrhau nifer gyfyngedig o ganlyniadau allweddol - bydd rhai yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a rhai flaenoriaethau lleol. Datblygir y Cytundebau, yn rhannol o leiaf, o'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Strategaethau Cymunedol, y Strategaethau Lles, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, Cynlluniau Datblygu Lleol a materion eraill fel gweithredu lleol ar y newid yn yr hinsawdd. Pwrpas y Cytundebau fydd hyrwyddo'r cyflawni a throi strategaethau yn weithredu, gan gyflymu'r cynnydd wrth fynd i'r afael â materion sylfaenol a datrys problemau sylweddol.

3.14 Yn ogystal â'r Cytundebau Gwasanaeth Lleol rhwng Byrddau unigol a Llywodraeth y Cynulliad, ac er mwyn cefnogi gwaith trawsffiniol, bydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ymchwilio i botensial cytundebau aml-faes gyda sawl Bwrdd Gwasanaeth Lleol lle gellir cyflawni amcanion yn y ffordd fwyaf effeithiol ym mhob awdurdod lleol.

3.15 Bydd Cytundebau Gwasanaeth Lleol yn:

- adeiladu ar anghenion a blaenoriaethau dinasyddion a chymunedau a blaenoriaethau strategol Llywodraeth y Cynulliad;
- hwyluso cydweithio ar draws gwahanol sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn darparu amrywiaeth o wasanaethau mwy effeithiol a di-fwlch i ddinasyddion;
- arwain at arloesi ym maes llywodraethu, atebolrwydd a chyllido wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cyfuno cyllidebau o fewn Llywodraeth y Cynulliad a rhwng gwahanol sefydliadau;
- cymell drwy gynnig rhyddid a hyblygrwydd, cyfuno cyllidebau, cymorth i feithrin gallu a byddwn yn asesu'r opsiynau i gynnig gwobrau pellach.

3.16 Byddwn yn ymgynghori cyn hir ar ein dull gweithredu yn hyn i gyd.

Blaenoriaeth

3.17 **Byrddau Gwasanaeth Lleol a Chytundebau Gwasanaeth Lleol -** i wella'r canlyniadau i ddinasyddion drwy integreiddio gwasanaethau a rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau lleol a chyrraedd nodau blaenoriaeth cenedlaethol.

Camau Gweithredu	Gan bwy a phryd
Sefydlu Byrddau Gwasanaeth Lleol, adeiladu ar Bartneriaethau'r Strategaeth Gymunedol sy'n bodoli eisoes, arwain at Gytundebau Gwasanaeth Lleol i wella gwasanaethau, cyfuno adnoddau ac ymdrech yn ôl yr angen.	Ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad Gaeaf 2006-07. Partneriaid lleol i ddechrau gweddnewid partneriaethau'r strategaeth gymunedol yn Fyrddau Gwasanaeth Lleol yn 2007-08. Prosiectau datblygu Cytundebau Gwasanaeth Lleol mewn nifer fach o ardaloedd yn 2007-08. Byrddau a Chytundebau Gwasanaeth Lleol ym mhob ardal erbyn 2010.
Newidiadau cyfreithiol yn ôl yr angen i gryfhau cyfrifoldeb awdurdodau lleol a chyrff eraill i gydweithredu a symud rhwystrau.	Erbyn 2009.
System arfarnu perfformiad leol gryfach ar gyfer gwaith y Byrddau Gwasanaeth Lleol ac adrodd yn ôl arno.	Erbyn 2009.

Cydweithredu rhanbarthol a chenedlaethol

3.18 Mae angen i gyrff y gwasanaeth cyhoeddus hefyd gydweithio'n gynyddol ar lefel ranbarthol neu genedlaethol lle, fel cyrff unigol, nid oes ganddynt y gallu i gynnig rhai gwasanaethau arbenigol, cymhleth neu wasanaethau sy'n dibynnu ar rwydweithiau. Mae cydweithio yn angenrheidiol i sicrhau ansawdd ac effeithlonrwydd.

3.19 Er enghraifft, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydweithio ar reoli gwastraff, mae'n rhaid i ymddiriedolaethau'r GIG rwydweithio â'i gilydd i ddarparu rhai gwasanaethau clinigol tra-arbenigol, ac mae'n rhaid i wasanaethau iechyd, addysg a phlant gydweithio i roi gofal priodol i rai o'r plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed.

3.20 Mae newidiadau radical wedi dechrau datblygu ar lefel ranbarthol, yn benodol yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf. Drwy gronfeydd *Creu'r Cysylltiadau*, rydym wedi ysgogi ton arall o astudiaethau a allai fod yn bellgyrhaeddol, llawer ohonynt drwy bartneriaethau rhanbarthol newydd CLlLC.

3.21 Wrth annog pobl i weithredu ar lefel ranbarthol neu genedlaethol lle bydd yn arwain at well gwasanaethau, rydym yn cydnabod yn gynyddol yr angen i gysoni ffiniau gwasanaethau rhanbarthol lle bynnag y bo modd ar lefel weithredol.

Blwch 3.1

Partneriaeth Blaenau'r Cymoedd

Er mwyn adfywio Blaenau'r Cymoedd mewn ffordd ffres, mae partneriaeth gref rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn gweithredu y tu ôl i weledigaeth y maent yn ei rhannu - sef dod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau drwy gyfuno arbenigedd, arian a brwdfrydedd. Wedi'i lansio yn 2005 ac â £140 miliwn o arian arbennig gan Lywodraeth y Cynulliad, maent yn gwneud cynnydd ar brosiectau sy'n amrywio o lanhau afonydd i gyflogaeth a hyfforddiant lleol. Mae rhaglen adfywio debyg wedi'i chyhoeddi ar gyfer ardal y Fenai yn y Gogledd-Orllewin.

Blaenoriaeth

3.22 Cydweithredu rhanbarthol a chenedlaethol - lle mae cyrff lleol yn cydweithio'n rhanbarthol neu'n genedlaethol i ddarparu gwasanaethau arbenigol, cymhleth neu drawsffiniol na allant eu cynnig yn effeithiol ac yn effeithlon ar eu pen eu hunain i safonau'r 21ain ganrif.

Camau	Gan bwy a phryd
Unedau comisiynu rhanbarthol a sefydlwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol i gomisiynu gofal eilaidd ar eu rhan.	GIG 2006-07.
Adnodd Cymorth Comisiynu Plant i helpu awdurdodau lleol i ddod o hyd i leoliadau a gwasanaethau cymorth eraill a'u comisiynu i blant sy'n agored i niwed, gan gynnwys datblygu contractau cyffredin ar gyfer gofal preswyl a maeth a chydweithio â gwasanaethau iechyd ac addysg lle bo'n briodol.	Llywodraeth y Cynulliad / CLlLC cwblhau camau 1 a 2 erbyn 2007-08.
Consortia rheoli gwastraff i ddatblygu prosiectau rhanbarthol i helpu llywodraeth leol i fodloni ei hymrwymiadau.	Awdurdodau lleol sy'n cael cyllid gan Lywodraeth y Cynulliad - y consortia yn eu lle ac wrthi'n datblygu ffyrdd o ddatrys problemau, 2007.
Consortia trafnidiaeth ranbarthol o awdurdodau lleol yn datblygu dull gwell o gynllunio a darparu cludiant.	Awdurdodau lleol ochr yn ochr â Llywodraeth y Cynulliad. Meithrin gallu 2006-07. Gwell cynlluniau rhanbarthol 2008-09 sy'n gysylltiedig â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Cyllid Grant Trafnidiaeth yn y dyfodol yn gysylltiedig â chanlyniadau'r consortia.
Rhaglen Blaenau'r Cymoedd - gweithio mewn partneriaeth â phum awdurdod lleol, y sectorau preifat a gwirfoddol i ddatblygu'r ardal, gan gynnwys yr economi, sgiliau, yr amgylchedd adeiledig a naturiol, tai a iechyd.	Cynllun datblygu 3-blynedd yn ei le, 2006.
Prosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff y GIG, addysg ac eraill i gaffael rhwydweithiau ar y cyd ar draws gwasanaethau cyhoeddus.	Caffael a gweithredu rhwydwaith Llywodraeth y Cynulliad 2007.

Camau	Gan bwy a phryd
Anghenion Addysgol Arbennig - cydgomisiynu (BILl/AALl) gwasanaethau ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cyfathrebu; a dull gweithredu rhanbarthol o ddarparu addysg i blant sydd â nam amlsynnwyr ac anghenion cymhleth eraill yn gorfforol, yn emosiynol, yn ymddygiadol neu o ran y synhwyrau.	Prosiectau Llywodraeth y Cynulliad yn eu lle 2007.
Llwybrau Dysgu 14-19 - Gwella cyfleoedd i bobl ifanc drwy roi lle mwy canolog i'r dysgwyr yn y ddarpariaeth, a gwneud hynny gyda'r rhai sydd dros 16 oed drwy gydweithredu a/neu ailgyflunio rhwydwaith y darparwyr.	Rhwydweithiau 14-19 ym mhob awdurdod lleol, yn cydweithio i greu dull cydweithredol strategol o ddarparu erbyn 2010. Llywodraeth y Cynulliad i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gwblhau adolygiadau braenaru daearyddol o'r ddarpariaeth i bobl ifanc dros 16 oed ym mhob ardal erbyn 2010.
Cynllunio brys drwy bedwar prif awdurdod rhanbarthol.	Cyfuno cyllid drwy brif gynghorau ym mhob ardal Fforwm Lleol Cymru Gydnerth 2007-08.
Tai cymdeithasol - chwe chonsortiwm o gymdeithasau tai ar gyfer sianelu pob un o grantiau tai cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer datblygu.	Trefniadau gwneud cais Llywodraeth y Cynulliad yn eu lle 2006-07.
Blaenoriaethau'r ail don i'w penderfynu yn dilyn 20 astudiaeth ddichonoldeb a ariennir gan Creu'r Cysylltiadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ym maes addysg, gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaethau brys, y sector gwirfoddol ac mewn mannau eraill.	Astudiaethau wedi'u cwblhau 2007.

Y berthynas rhwng y Cynllun Gofodol a phartneriaethau lleol a rhanbarthol

3.23 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn ysgogi pobl i feddwl yn arloesol ac yn greadigol am ddatblygiad strategol 6 ardal y Cynllun Gofodol yn y dyfodol, ac mae gweledigaeth economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gref 15-20 mlynedd yn datblygu. Mae'r camau yn y papur hwn yn canolbwyntio ar y mater gwahanol, er yn gysylltiedig, o wella gwasanaethau cyhoeddus.

Er hynny, mae angen i'r ffordd y mae gwasanaethau yn datblygu gyfrannu at gyflawni'r weledigaeth strategol hirdymor ar gyfer ardal benodol, ac yn wir bydd gwell gwasanaethau cyhoeddus yn sail i gynnydd y Cynllun Gofodol.

3.24 Byddwn yn sicrhau felly ein bod yn datblygu'r synergedd cywir rhwng y Cynllun Gofodol a chymryd camau i wella gwasanaeth cyhoeddus. Drwy'r canllawiau amrywiol a gyhoeddwn y flwyddyn nesaf, byddwn yn nodi sut y dylai'r Strategaethau Cymunedol lleol, yn ogystal â'u huchelgeisiau ar gyfer gwasanaethau lleol, fod yn seiliedig ar y Cynlluniau Ardal Gofodol a bwydo i mewn iddynt. Byddwn hefyd yn adeiladu ar bartneriaeth agos o fewn Llywodraeth y Cynulliad rhwng timau diwygio'r gwasanaeth cyhoeddus a thimau'r Cynllun Gofodol.

3.25 Mae gennym wahanol grwpiau rhanbarthol yng Nghymru ar gyfer cynllunio a darparu gwahanol wasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, un gyfres o ffiniau rhanbarthol ar gyfer y GIG ac un arall ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaethau gweithredol rhwng gwasanaethau fel dalgylchoedd ysbytai a phatrwm ffyrdd a rheilffyrdd. Er hynny, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i sicrhau bod rhwydweithiau a ffiniau darpariaeth gwasanaeth yn cydymffurfio'n fwy lle bynnag y mae hynny'n synhwyrol a sicrhau bod y feddylfryd ynghylch datblygu'r gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol hefyd yn gydnaws â'r Cynllun Gofodol.

4. Gweithlu o Safon Fyd-eang

'Mae gweithlu medrus, egnïol, cryf ei gymhelliad: o gasglwyr sbwriel i brif weithredwyr, o gynorthwywyr gofal i ymgynghorwyr, o dderbynyddion i radiolegwyr, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru ymysg y gorau yn y byd.' **Beecham (t.60)**

4.1 Er mwyn ysbrydoli'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i roi lle mwy canolog i'r dinesydd, bod yn fwy effeithlon a chydweithredu'n fwy, mae'n rhaid datblygu gweithlu sydd â sgiliau gwell fyth, mwy ymroddedig ac sydd o safon fyd-eang. Rhaid i arweinwyr, rheolwyr a'r gweithlu fod yn barod i groesawu newidiadau yn y dyfodol.

4.2 Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, er mwyn gweddnewid gwasanaethau cyhoeddus i adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar roi'r dinesydd yn gyntaf a'r ffaith bod adnoddau wedi'u symud i'r broses gyflenwi, bydd angen sgiliau newydd ar bawb sy'n gweithio yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru ac ailddiffinio eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae angen inni ymgysylltu â staff y rheng flaen a'u galluogi i weithredu mewn ffordd fwy ymatebol a hyblyg, gan gydnabod mai nhw yn aml sydd yn y sefyllfa orau i helpu i gynllunio a sicrhau gwelliant mewn gwasanaethau. Mae angen inni feithrin eu gallu i arloesi a gwella'n barhaus y ffordd y caiff gwasanaethau eu trefnu a'u gweithredu.

4.3 Bydd arweinwyr a rheolwyr yn chwarae rôl hollbwysig wrth hwyluso'r newidiadau hyn drwy ddangos eu hymrwymiad personol i'r weledigaeth o well gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u hintegreiddio ynghyd â gallu arbennig i reoli eraill. Y sylfaen gyffredin a fydd yn clymu pob gwasanaeth cyhoeddus ynghyd fydd ethos gwasanaeth cyhoeddus cryf lle mai anghenion a lles y dinesydd fydd y man cyfeirio cyntaf i'r ffordd y dylunnir ac y rheolir pob gwasanaeth cyhoeddus.

4.4 Rydym wedi dechrau gwneud cynnydd da wrth ddatblygu rheolwyr ac arweinwyr ledled Cymru drwy Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru (RhNgCC), Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (AGAAGI), gwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Gwasanaeth

Sifil Llywodraeth y Cynulliad. Mae gweithio mewn cydweithrediad yn creu synergedd sy'n canolbwyntio ar y cyd-destun unigryw ar gyfer rheoli ac arwain yng Nghymru. Eto i gyd, mae heriau mawr o'n blaen.

4.5 Mae angen holl gyflogwyr y gwasanaeth cyhoeddus arnom i sicrhau bod ganddynt gynlluniau datblygu staff, cynlluniau gweithlu a gwasanaethau AD o safon uchel, a fydd yn ei gwneud yn wirioneddol bosib i'r holl staff gyfrannu at greu gwasanaeth cyhoeddus sy'n perthyn i'r 21ain ganrif.

4.6 Mae angen inni allu bod yn fwy siwr o ganlyniadau busnes da sy'n dibynnu ar gyfle cyfartal ac ymwybyddiaeth o degwch yn y ffordd rydyn ni'n gweithredu fel cyflogwyr, ac yn ein harferion cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth barhaus â chyrff fel y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'n golygu hefyd gael cyfle i ehangu ein henw da fel cyflogwr rhagorol, gan adlewyrchu amrywiaeth Cymru ac ategu cyfiawnder cymdeithasol drwy roi ffocws gwirioneddol ar y dinesydd yn y ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn rheoli'r gweithlu - a gweithlu'r dyfodol.

Blwch 4.1

Recriwtio a Chadw'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Mae partneriaethau lleol a rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol, cyflogwyr preifat a gwirfoddol a darparwyr hyfforddiant a datblygiad yn dod ynghyd gyda chymorth oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad a Chyngor Gofal Cymru, a hynny er mwyn gwella lefelau recriwtio a chadw yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Yng nghanolbarth Cymru, mae'r bartneriaeth gofal cymdeithasol wedi cydweithio'n agos â'r Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru i godi proffil gofal cymdeithasol ac wedi chwilio am bartneriaid newydd o'r tu allan i faes gofal cymdeithasol er mwyn hyrwyddo cyfleoedd gyrfa. Yn ddiweddar lansiodd y bartneriaeth becyn recriwtio i annog y gymuned wledig a ffermio i ystyried arallgyfeirio i gyfeiriad gofal cymdeithasol. Mae'r bartneriaeth yn gwneud defnydd rheolaidd o'i bws recriwtio i ledaenu neges gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth. Mewn ardal arall mae rhaglen "Sylfaen Gofal" wedi'i datblygu sy'n galluogi pobl y gellid eu recriwtio i gymryd rhan mewn rhaglen gyn-gyflogaeth gyda lleoliadau profiad gwaith yn cael eu cynnig gan gyflogwyr recriwtio.

4.7 Drwy RhNgCC, a chyda'n partneriaid yn yr undebau llafur a rhanddeiliaid sy'n gyflogwyr, rydym wedi sefydlu Fforwm Gweithlu'r Gwasanaethau Cyhoeddus i roi cyngor ar sut orau i gefnogi'r gweithlu drwy'r newidiadau o'n blaen, cynllunio'r newid a monitro'r effaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth geisio sicrhau tegwch ar draws gweithlu cyfan y gwasanaeth cyhoeddus a gall hyrwyddo hefyd ymwybyddiaeth gliriach o hunaniaeth fel gweithlu i wasanaethu Cymru. Mae'r Fforwm yn dylanwadu ar lawer o'r camau rydyn ni'n eu cymryd a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn rheoli'r newid yn ofalus ac yn dda.

4.8 Byddwn hefyd yn defnyddio cyfleoedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop o fewn y Rhaglen Gydgyfeirio ar gyfer y Cymoedd a Gorllewin Cymru er mwyn meithrin gallu ar draws y gwasanaeth cyhoeddus a'r sawl y mae'n rhaid iddo gysylltu â hwy er mwyn darparu gwasanaethau, gan gynnwys y sector gwirfoddol.

Blaenoriaeth

4.9 **Rhaglenni arweinyddiaeth** - i feithrin gallu'r arweinwyr presennol a rhai'r dyfodol, drwy bartneriaeth rhwng Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru, Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, prifysgolion a darparwyr eraill. Bydd hyn hefyd yn cynnwys aelodau o raglenni arweinyddiaeth gan gyflogwyr gwasanaeth cyhoeddus allweddol yng Nghymru fel Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol.

Rhaglenni datblygu

Cynllunio a gweithredu cyfres o raglenni datblygu ac ymyriadau dysgu ar gyfer rheolwyr ac arweinwyr unigol, gan ddefnyddio technolegau dysgu cyflym newydd sy'n tynnu ar gronfa ryngwladol o arbenigwyr.	Bydd rhaglenni RhNgCC/AGAAGI 2006-2009 yn cynnwys dros 2,000 o arweinwyr a rheolwyr bob blwyddyn.
Hyrwyddo'r broses o drosglwyddo sgiliau a gwella cydweithrediad ar draws y gwasanaeth cyhoeddus drwy hwyluso secondiadau, lleoliadau, cysgodi a chyfnewid swyddi ar draws gwahanol sefydliadau a phroffesiynau.	Bydd RhNgCC yn ceisio hwyluso mwy na 500 o gyfleoedd cyfnewid ac am secondiadau bob blwyddyn.
Llwyfannu Digwyddiad Cyfnewid Pobl ar gyfer Cymru gyfan er mwyn i'r gweithlu allu cael at wybodaeth, cyngor a chanllawiau ar ddatblygu sgiliau a gwneud y mwyaf o'u potensial.	Caiff Arddangosfa Cyfnewid Pobl 2007 ei llwyfannu ar 30 a 31 Ionawr.

Rhaglenni datblygu

Lansio Cynllun Lleoliadau Rhyngwladol ar gyfer 25 o weithwyr y gwasanaeth cyhoeddus.	Bydd lleoliadau datblygu rhyngwladol ar gyfer rheolwyr ac arweinwyr y gwasanaeth cyhoeddus ar gael o ddiwedd Ionawr 2007.
Parhau â gwaith arloesol Ysgol Haf flynyddol y Gwasanaeth Cyhoeddus am 3 blynedd	Cynhelir Ysgol Haf nesaf y Gwasanaeth Cyhoeddus ar 25 i 29 Mehefin 2007 ar gyfer 300 o reolwyr ac arweinwyr y gwasanaeth cyhoeddus.

Blaenoriaeth

4.10 Helpu sefydliadau i reoli newid.

Rhaglenni datblygu

Rhoi cymorth arbenigol i sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus sy'n rheoli newid.	Bydd RhNgCC yn datblygu rhwydwaith o ymarferwyr ymgynghori llwyddiannus i'w ddefnyddio ar draws sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus.
Mewn cydweithrediad ag Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, meithrin gallu datblygu sefydliadol o fewn sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus.	Hwyluso rhaglen achrededig ar gyfer rheolwyr ac arweinwyr sydd am ddatblygu sgiliau ymarferwyr Datblygu Sefydliadol.
Galluogi sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus i rannu arferion gorau ac efelychu enghreifftiau o lefelau uchel o arweiniad a rheoli.	Bydd RhNgCC yn hwyluso, gyda'i bartneriaid, gyfres o sesiynau datblygu sefydliadol y tu mewn a'r tu allan i Gymru.
Trefnu Ymchwiliad Maes Arweiniad Rhyngwladol, mewn cydweithrediad ag Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd.	Bydd yr Ymchwiliad cyntaf yn cael ei gynnal yn ystod gwanwyn 2007 yng Ngweriniaeth Iwerddon er mwyn ymchwilio i fframwaith partneriaeth gymdeithasol.

Blaenoriaeth

4.11 **Gwell arferion cyflogaeth** - hyrwyddo gwaith rheoli cryfach ar adnoddau dynol yng nghyrff y gwasanaeth cyhoeddus, wedi'i gydgysylltu gan Fforwm Gweithlu'r Gwasanaethau Cyhoeddus gyda chymorth Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru a Rhwydwaith AD ar gyfer Cymru gyfan.

Cynllunio'r gweithlu

Creu gwell system wybodaeth a dealltwriaeth o broses gynllunio'r gweithlu fel rhan allweddol o newid strategol yn ogystal â phroses reoli ar draws sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus Cymru.	Bydd RhNgCC yn llunio'r adolygiad sylfaenol o'r ffordd y cynllunnir gweithluoedd ledled Cymru ac yn darparu fframwaith ar gyfer cymryd camau pellach.
Mewn cydweithrediad ag Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cynyddu sgiliau cynllunio gweithluoedd a'r capasiti i wneud hyn ledled Cymru.	Yn ystod 2007 bydd RhNgCC yn cydgynnal rhaglen ddatblygu achrededig er mwyn gwella sgiliau cynllunwyr gweithluoedd ledled Cymru.
Gwella'r gwaith o gasglu a dadansoddi data'r gweithlu.	Mewn cydweithrediad ag AGAAGI a CLlLC, bydd RhNgCC yn comisiynu'r gwaith o ddatblygu model/arf cynllunio gweithlu cyffredinol sydd o safon uchel.
Hwyluso rhwydwaith proffesiynol o Arweinwyr AD o bob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus.	Bydd RhNgCC yn cydweithredu â Chymuned AD i sefydlu Rhwydwaith Rheoli Pobl ar gyfer Cymru gyfan.
Mewn cydweithrediad ag Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, darparu rhaglen datblygiad proffesiynol ar gyfer prif swyddogion AD ledled Cymru.	Bydd RhNgCC ac AGAAGI yn lansio rhaglen ar gyfer gweithwyr proffesiynol AD ym mis Chwefror a fydd yn dabblygu yn ystod y flwyddyn.
Gwella mynediad i gyfleoedd cyflogaeth o fewn gwasanaethau cyhoeddus Cymru a rheoli'r costau sy'n gysylltiedig â hysbysebu yn allanol.	Mewn cydweithrediad â'i bartneriaid, bydd RhNgCC yn cynllunio ac yn cyflwyno porth recriwtio Cymru gyfan ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus yn ystod 2007
Gwella a harmoneiddio'r gwaith o ddatblygu polisïau cyflogaeth ar draws sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus.	O wanwyn 2007, bydd PSMW yn trefnu ffordd i holl sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus arsylwi ar ei bolisïau.

5. Codi Gwerth y Bunt Gymreig

'Nid yw gwella effeithlonrwydd yn ymwneud â gwneud toriadau; yn hytrach, mae'n ymwneud â darganfod ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau…. Chwilio am fwy o effeithlonrwydd yw'r her strategol fwyaf sy'n wynebu'r system ddarparu.' **Beecham (t.31)**

5.1 Mae bod yn fwy effeithlon yn hanfodol er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau. Rydym wedi bod drwy gyfnod o dwf na welwyd ei fath ym maes gwariant cyhoeddus - gyda chyllideb Llywodraeth y Cynulliad yn dyblu bron er 1999. Bellach mae'r cynnydd yn yr arian sydd ar gael i Lywodraeth y Cynulliad yn arafu tra bod y pwysau i wella'r gwasanaethau yn cynyddu. Mae'n rhaid inni ganolbwyntio ein hadnoddau ar wasanaethau'r rheng flaen er mwyn diogelu'r gwelliannau cynaliadwy y mae pawb eu heisiau.

5.2 Pennodd Llywodraeth y Cynulliad darged ar gyfer sector cyhoeddus Cymru, sef sicrhau arbedion effeithlonrwydd o £600 miliwn y flwyddyn o leiaf erbyn 2010 - gan ei gwneud yn glir mai mater o wella'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio yw effeithlonrwydd, nid torri gwasanaethau. 2005-06 oedd y flwyddyn gyntaf ac mae yna argoelion addawol o gynnydd buan, gyda llawer o gyrff cyhoeddus yn ymateb yn frwd i'r her. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa yng ngoleuni Adolygiad o Wariant 2007 y DU ond mae'n hanfodol bod cyrff cyhoeddus yn chwilio am bob cyfle gwirioneddol i fod yn fwy effeithlon er mwyn i wasanaethau fod o fudd amlwg i'w cymunedau.

5.3 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar amrywiaeth o gamau i hyrwyddo effeithlonrwydd ond mae'n bwysig nodi bod llawer o'r cydweithredu a nodwyd yn y bennod flaenorol, fel partneriaethau ar reoli gwastraff, yn arwain at well gwerth am arian yn ogystal â sicrhau gwell canlyniadau i wasanaethau. Mae'r un peth yn wir am ailgyflunio gwasanaethau lleol fel ysgolion. Mae mwy i'w wneud o ran olrhain arbedion effeithlonrwydd: er enghraifft, mae Swyddfa Archwilio Cymru bellach yn gysylltiedig â dilysu'r arbedion a wneir.

5.4 Mae'r amrywiaeth uchelgeisiol o astudiaethau effeithlonrwydd sydd ar y gweill ar draws y gwasanaeth cyhoeddus bellach, ac a ariennir drwy Grant

Gwella *Creu'r Cysylltiadau,* yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth eang y bydd y cam nesaf yn yr ymgyrch effeithlonrwydd yn golygu bod angen i gyrff cyhoeddus ailfeddwl yn sylfaenol am eu prosesau busnes a sut y maent yn dyrannu adnoddau. Bydd angen modelau arloesol o weithio mewn gwahanol ffyrdd. Erbyn 2010, rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn rhannu o leiaf ryw agwedd ar eu gwasanaethau cymorth ag eraill.

5.5 Bydd datblygu trefniadau partneriaeth hirdymor rhwng cyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau canlyniadau penodol yn hanfodol i hyn, er enghraifft partneriaethau gwastraff awdurdodau lleol, neu â'r sector preifat ar gyfer adeiladu cyfleusterau newydd. Mae partneriaethau hirdymor yn gallu sicrhau gwasanaethau o ansawdd tra ar yr un pryd yn creu manteision o ran effeithlonrwydd. Mae yna beryglon i'w hosgoi hefyd. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn mynd ati i annog cyrff i rannu profiadau ac arferion da.

Blwch 5.1

Gwerth am arian

Amcangyfrifir bod cyrff y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn gwario tua £4 biliwn bob blwyddyn ar brynu nwyddau a gwasanaethau oddi wrth gyflenwyr. Mae datblygiadau fel y Cerdyn Prynu Cymreig, sydd i fod i ddileu biwrocratiaeth wrth brynu a sicrhau arbedion cost, yn hanfodol er mwyn cael gwell gwerth am arian i bobl Cymru. Gwerth Cymru sydd wedi datblygu'r Cerdyn, sef cangen gwerth am arian Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Cerdyn ar gael i'r sector cyhoeddus yng Nghymru heb ffi ac mae'n grymuso staff i gael nwyddau yn gyflym ac yn hawdd tra'n gadael trywydd archwilio clir. Mae'n cynnig system reoli electronig am ddim sydd wedi'i theilwra i anghenion pob sefydliad. Mae'r nifer sy'n defnyddio'r Cerdyn yn tyfu'n gyflym. Yn 2006 mae'n galluogi dros 157,000 o drafodion gan arbed dros £4 miliwn. Dim ond un o blith llawer o wasanaethau a gweithgareddau yw hwn y mae Gwerth Cymru yn ei gynnig gyda'r nod o arbed tua £120 miliwn i Gymru bob blwyddyn drwy gaffael mewn ffordd gallach erbyn 2008..

5.6 Fe rown ni arweiniad cryf i'r ymgyrch effeithlonrwydd genedlaethol drwy Gwerth Cymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn cynnig cymorth ymarferol a chyngor arbenigol i gyrff y gwasanaeth cyhoeddus, gan ymgysylltu ar lawr gwlad â phartneriaethau a rhwydweithiau yn ogystal â chynnal nifer o'i brosiectau effeithlonrwydd ei hun.

Blaenoriaeth

5.7 Gwneud i'r bunt Gymreig fynd ymhellach er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau - drwy ffyrdd gwell o weithio ar draws y gwasanaeth cyhoeddus a gwario arian ar y pethau iawn. Caiff hyn ei gefnogi gan *Gwerth Cymru, Cyflenwadau Iechyd Cymru, Ystadau Iechyd Cymru* ac eraill.

Camau	Gan bwy a phryd
Cynllun Caffael Adnoddau Cenedlaethol - y cynllun caffael cenedlaethol cyntaf erioed i alluogi cyrff cyhoeddus i nodi cyd-gyfleoedd yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, ynghyd â datblygu rhwydweithiau caffael yn y sectorau gwasanaeth allweddol - ee llywodraeth leol, addysg bellach ac addysg uwch.	Rhoi cynllun caffael adnoddau Gwerth Cymru yn ei le erbyn 2006-07.
Arfau caffael Gwerth Cymru gan gynnwys mwy o gontractau fframwaith ar gyfer eitemau cyffredin, y defnydd o'r Cerdyn Prynu Cymreig ac ati, a ddefnyddir gan bob prif gorff cyhoeddus oni bai eu bod yn gallu sicrhau gwell gwerth am arian mewn ffyrdd eraill.	Gwerth Cymru 2006-08.
Ffocws e-gaffael newydd sy'n cysylltu prynwyr a chyflenwyr yn electronig ar gyfer archebion ac anfonebau (yn amodol ar achosion busnes), ynghyd â mynediad i holl gontractau cydweithrediadol y sector cyhoeddus ac amrywiaeth o arfau gan gynnwys dogfennau tendro ac e-dendro.	Adolygiad o opsiynau Gwerth Cymru 2007-08.
Siarter Drws Agored Gwerth Cymru ar gyfer caffael sy'n gyfeillgar i fentrau bach a chanolig ac adeiladu ar lwyddiant gwefan gwerthwchigymru, gan gynnig mynediad am ddim i 16,000 o gyflenwyr i gyfleoedd am gontractau gwerth £1.2 biliwn.	Rhaglen Gwerth Cymru yn ei lle.
Rhaglen gaffael gynaliadwy sy'n delio â hyfforddiant, effeithlonrwydd amgylcheddol a chontractio.	Mae Rhaglen Gwerth Cymru yn ei lle ac yn cael ei gweithredu.
Prosiectau Rhannu Gwasanaethau i brif-ffrydio cyllid, AD a chaffael ledled Cymru a'r defnydd o ystâd.	Mae Prosiect Gogledd Cymru y GIG yn cael ei weithredu yn 2006-07 cyn ei gyflwyno'n ehangach.

Camau

Cymorth ysgolion - prosiectau ysgolion newydd Gwerth Cymru. Prosiect cyfalaf i gael gwell gwerth am fuddsoddiad yn adeiladau ac ystâd ein hysgolion, gan gydweithio ag awdurdodau lleol, partneriaid y sector preifat ac eraill i wella cynllunio, dylunio a chydweithredu. Prosiect refeniw i helpu ysgolion ar gaffael a materion cysylltiedig.

Rhaglen **gwella rheolaeth prosiectau** ar draws y gwasanaeth cyhoeddus fel bod mwy o brosiectau cyhoeddus yn cael eu cwblhau mewn pryd ac o fewn y gyllideb drwy hyfforddiant a datblygiad a thechnegau Adolygiad Gateway.

Gan bwy a phryd

Mae amrywiaeth o astudiaethau dichonoldeb ar y gweill mewn llywodraeth leol ac yn y sector gwirfoddol a'r gwasanaethau brys. Cwblheir yr astudiaethau yn 2007 fel sail i'r sectorau weithredu yn y dyfodol fel y bo'n briodol.

Bydd yn effeithio ar ddatblygiad ysgolion o 2007-08.

6. Hyrwyddo'r Newid: Llywodraeth, Adnoddau A Pherfformiad

> *'rhaid i wleidyddion cenedlaethol a lleol, yn ogystal â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, greu diwylliant sy'n herio diddordebau personol ac nad yw'n goddef perfformiad is-safonol neu gyffredinedd.....Y nod fydd atal methiant drwy ei ganfod yn gynnar a chymryd camau, ond hefyd i annog uchelgais i berfformio ar y lefel uchaf'* **Beecham (t. 65)**

6.1 Er mwyn gweithredu'r diwygiadau a nodwyd mewn penodau blaenorol bydd angen cymryd camau i'w gwneud yn bosib. Mae'r rhain yn cynnwys newid y ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu fel sefydliad, gan geisio gwella'r ffordd y rheolir perfformiad, effeithiolrwydd arolygu a rheoleiddio, grym llywodraethu a defnyddioldeb craffu ar draws y gwasanaeth cyhoeddus.

Datblygu rôl Llywodraeth y Cynulliad

6.2 Wrth wraidd ein diwygiadau mae symudiad cynyddol a sylweddol yn y ffordd y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arweiniad wrth wella gwasanaethau cyhoeddus. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i bennu polisi, blaenoriaethau a safonau cenedlaethol. Fe gymerwn fantais o faint a graddfa Cymru i hyrwyddo'r rhain yn lleol, gan ddibynnu'n llai ar systemau biwrocrataidd confensiynol. Fe rown fwy o bwyslais ar gysylltiad wyneb yn wyneb ein swyddogion i gefnogi Byrddau Gwasanaeth Lleol wrth oresgyn rhwystrau i gydweithio, cyfrannu at eu rôl o reoli perfformiad a sicrhau y cyfathrebir yn fwy effeithiol â'n Hadrannau. Bydd yna gysylltiad Gweinidogol cryfach i ategu partneriaethau darparu rhanbarthol a lleol. Byddwn yn symud yr adnoddau o weinyddu arferol i gefnogi'r elfen gyflenwi ac yn symleiddio'r system, gan gynnwys nifer y ffrydiau cyllido a'r gofyniad am gydsyniad a chyfarwyddiadau. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i leihau'r gofynion ar awdurdodau lleol i lunio cynlluniau statudol.

Blwch 6.1

Lleihau biwrocratiaeth

Gan gydweithio'n agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r prif gyrff gweithredol (SOLACE) ac eraill, yn ddiweddar mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu rhaglen i leihau'r nifer o gynlluniau gwahanol sy'n ofynnol gan bob awdurdod lleol, llawer ohonynt drwy gyfraith. Yn dilyn ymarfer manwl, bydd nifer y cynlluniau sy'n ofynnol yn gostwng 33, a bydd y mwyafrif ohonynt yn cael eu dileu o fewn y 3-5 mlynedd nesaf. Daw'r fframwaith newydd o 4 strategaeth lefel uchel ym mhob awdurdod lleol i rym o 2008-09 gyda chynlluniau yn cynnwys Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Plant a Phobl Ifanc a Datblygu Lleol sy'n bwydo i mewn i'r Strategaeth Gymunedol.

6.3 Byddwn yn sefydlu tîm Perfformio Cymru bach, gydag aelodau o Lywodraeth y Cynulliad a'r tu allan iddi. Bydd y tîm yn cefnogi Gweinidogion ac yn cyd-drefnu ein hymgysylltiad â Byrddau Gwasanaeth Lleol. Bydd yn cydweithio'n agos ag Adrannau Llywodraeth y Cynulliad, gan gymryd y camau mewnol dilynol angenrheidiol (er enghraifft, dileu biwrocratiaeth ddiangen, alinio cylchoedd cynllunio a goresgyn rhwystrau i ddarparu), monitro perfformiad, comisiynu'r gwaith i'w gwneud yn haws i bobl weld gwybodaeth am berfformiad a gwella trefniadau llywodraethu, fel y nodir isod. Bydd Perfformio Cymru yn cysylltu camau gwella a gymerir yn allanol â'r rhaglen newid fewnol barhaus ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad. Ategir hyn gan swyddogaeth herio fewnol gryfach, i sicrhau bod holl gyllideb Cymru yn cael ei gwario ar y pethau iawn ac yn y ffordd orau.

6.4 Caiff cyfrifoldebau traws-wasanaeth a daearyddol Gweinidog pob Adran eu hategu gan swyddogion o fewn eu Hadran a fydd yn cydweithio'n agos â Pherfformio Cymru. Wrth i hyn fagu stêm, bydd yn effeithio ar y ffordd y mae holl Adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio.

Gwybodaeth am berfformiad

6.5 Mae'n hanfodol bod y cyhoedd a'r rheini sy'n arwain ac yn gweithio yn sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus yn gallu cael gwybodaeth gynhwysfawr, dda am y ffordd y mae gwasanaethau lleol yn perfformio. Mae llawer o wybodaeth ar gael - yr angen yw helpu pobl i'w ddefnyddio.

6.6 Yn ddiweddar, gwelwyd nifer o welliannau sylweddol yn y ffordd y caiff gwybodaeth am berfformiad ei chynllunio a'i chyflwyno mewn meysydd fel llywodraeth leol a iechyd, ac rydym am adeiladu ar y rhain. Ymhlith y rhain mae'r Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Leol newydd a Cherdyn Sgorio Cytbwys y GIG. Wrth i'r systemau hyn ddatblygu, yr her yw eu gwneud yn fwy cyson a gwneud iddynt ategu ei gilydd, cael gwared ar unrhyw ddyblygu neu wrth-ddweud a darparu gwybodaeth dda am berfformiad ar draws y gwasanaethau lleol.

6.7 Gan gydweithio â Swyddfa Archwilio Cymru a'r Uned Ddata Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ystadegwyr, rheoleiddwyr, arolygwyr ac eraill, byddwn yn

- sefydlu cyfres o safonau gwasanaeth cenedlaethol y mae'n hawdd i'r cyhoedd eu gweld er mwyn iddynt wybod pa wasanaethau craidd y dylent eu disgwyl lle bynnag y maent yn byw. Bydd hyn yn cydnabod mai pennu safonau yn lleol sydd orau yn aml. Yn ystod y cam cyntaf, byddwn yn defnyddio fframweithiau a safonau sy'n bodoli eisoes ar gyfer cyfres gyfyngedig o wasanaethau allweddol, gan eu tynnu ynghyd a'u hyrwyddo'n fwy effeithiol. Byddwn yn ymgynghori'n agos ar ddatblygu pellach, gan gynnwys y meini prawf i'w cynnwys i sicrhau bod modd rheoli'r gyfres;
- gwella ansawdd a defnyddioldeb gwybodaeth am berfformiad y gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys cymariaethau costau, fel bod y cyhoedd, rheolwyr gwasanaethau ac arweinwyr mewn sefyllfa well i weld sut mae sefydliadau yn perfformio, heb ddychwelyd at dablau cynghrair a'u heffaith lurguniol, a dysgu gan y mwyaf llwyddiannus a chost-effeithiol;
- symleiddio a dileu gorgyffwrdd neu gymhellion gwrthnysig mewn fframweithiau perfformiad ar gyfer gwahanol sectorau fel na fydd y rhain yn rhwystro cydweithredu;
- cyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys cynnydd gyda'n diwygiadau. Meincnodi perfformiad yng Nghymru yn erbyn gwledydd bach eraill - rydym yn trafod gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac eraill sut orau i wneud hyn.

Gwella Llywodraethu

6.8 Mae perfformiad effeithiol a systemau llywodraethu, (gan gynnwys prosesau sy'n ymwneud â'r ffyrdd y mae sefydliadau yn gwneud penderfyniadau, yn eu trefnu eu hunain er mwyn cyflawni amcanion ac yn byw yn ôl eu gwerthoedd a'u safonau) yn hanfodol er mwyn gwella gwasanaethau. Gan adeiladu ar waith Prosiect presennol Llywodraethu mewn Iechyd, a chyda Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rheoleiddwyr, arolygwyr ac eraill, byddwn yn:

- sicrhau bod llinellau clir, tryloyw ac effeithiol o atebolrwydd a llywodraethu ym mhob sector, yn benodol er mwyn sicrhau effeithiolrwydd mwyaf posib cydweithio;
- datblygu dull unedig o gynefino, hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth y sawl a benodwyd i redeg ein gwasanaethau cyhoeddus, gan ddefnyddio'r rhaglenni sy'n bodoli eisoes, er mwyn gwella'r sgiliau a'r cymorth ar gyfer aelodau o fyrddau cyhoeddus a chynghorwyr wrth arwain eu sefydliadau;
- adolygu trefniadau ar gyfer recriwtio aelodau i fyrddau sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau bod gennym yr ymgeiswyr gorau posib;
- datblygu dulliau mwy cynhwysfawr o drosglwyddo arferion gorau ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gan integreiddio cynaliadwyedd ar lefel sefydliadau lleol a datblygu polisi a chymorth os bydd sefydliad mewn perygl o fethu.

Blwch 6.2

Gweddnewid gwasanaethau cyhoeddus

Gyda chymorth bwrdd annibynnol o arbenigwyr mewn gwasanaethau cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi gweddnewid ei berfformiad ers adroddiad arolygu yn 2003 a oedd yn tynnu sylw at fethiannau difrifol. Roedd y bwrdd, a gynullwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a phartneriaid cenedlaethol, yn cydweithio ag aelodau a swyddogion ar y Cyngor a roddodd eu cydweithrediad llawn ac maent wedi cyflawni rhai gwelliannau dramatig o ran ansawdd gwasanaeth. Daethpwyd â'r protocol ymyrryd ffurfiol i ben yn llwyddiannus. Mae'r gymysgedd o gymorth arbenigol, pwerau ffurfiol ac ymrwymiad lleol wedi bod yn brawf pwysig o ddod o hyd i'r ffordd orau o ymyrryd os yw'r gwasanaethau cyhoeddus mewn perygl.

Rheoleiddio ac arolygu

6.9 Drwy ein Fforwm Penaethiaid Arolygiaethau newydd, bu archwilwyr, rheoleiddwyr ac arolygwyr yn cymryd camau ymarferol i wella'r ffordd y maent yn cydweithio. Rydym yn integreiddio Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC), ac yn bwrw ymlaen i greu prosesau mwy cydlynol ac sy'n fwy seiliedig ar risg ar gyfer arolygu a rheoleiddio'n fwy cyffredinol. Byddwn yn ymgynghori yn 2007 ar bolisi'r dyfodol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu. Byddwn yn nodi sut rydym yn bwriadu adeiladu ar y cynnydd a wneir i symleiddio systemau ac yn gweithio gydag arolygwyr a rheoleiddwyr i gryfhau'r cyfraniad a wnânt i wella'r gwasanaeth.

Camau	Pryd
Sefydlu tîm **Perfformio Cymru**, o fewn Llywodraeth y Cynulliad.	2006-07
Dechrau **Rhaglenni Gwybodaeth Perfformiad a Llywodraethu.**	2007
Cyhoeddi'r gyfres gyntaf o **Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol.**	2007-08
Sefydlu uwch dîm rheoli newydd a hunaniaeth sefydliadol newydd ar gyfer ASGC ac AGCC i ddatblygu'r integreiddio.	Erbyn Ebrill 2007
Polisi rheoleiddio ac arolygu newydd Llywodraeth y Cynulliad i gryfhau'r ffocws ar welliant, galluogi gwell cydweithio a dileu beichiau diangen.	Ymgynghoriad 2007
Nodi cyfres gychwynnol o weithdrefnau cydsynio i'w diwygio.	2007-08
Sefydlu **Adroddiad Blynyddol ar berfformiad y gwasanaeth cyhoeddus.**	Adroddiad cyntaf haf 2008
Protocolau ar ymyrryd lle mae perygl o fethiant corfforaethol.	2007-08

7. Cydgysylltu'r Cyfan

7.1 Mae hon yn rhaglen ddiwygio eang i hybu gallu a gweddnewid diwylliant a pherfformiad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus yn fwy:

- ymatebol i ddinasyddion a chymunedau;
- integredig yn y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i bobl;
- effeithlon yn y ffordd y cânt eu rheoli;
- effeithiol wrth arwain a chefnogi'r gweithlu drwy'r heriau.

7.2 Bu Prif Weinidog Cymru yn cadeirio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan dynnu cynrychiolwyr prif sectorau'r gwasanaeth cyhoeddus ynghyd i roi cyngor ar y cynnydd a wnaed a'r blaenoriaethau wrth ddatblygu ein rhaglen ddiwygio. Bydd y Bwrdd yn parhau i fod â rôl allweddol wrth ein helpu i lywio'r cam nesaf. Byddwn hefyd eisiau i'n Cynghorau Partneriaeth (Sector Gwirfoddol, Llywodraeth Leol a Busnes) gyfrannu at y drafodaeth.

7.3 Mae hon yn rhaglen fawr: (mae'r siart isod yn tynnu ynghyd i ble rydym yn mynd a sut y cyrhaeddwn, yn y tymor byr a'r tymor hir). Nid oes modd ei chyflawni heb ymrwymiad pawb. Bydd angen pob un ohonom i wneud i'r cysylltiadau weithio.

Ein Nodau	2006-2008	2009-11
Gweddnewid gwasanaeth cwsmeriaid (mynediad ac ymatebolrwydd) Ar sail 5 egwyddor gwasanaeth cwsmeriaid da, opsiynau ar gyfer mynediad a chymorth.	Polisi a chynllun gweithredu ar wasanaeth cwsmeriaid cenedlaethol ar y gweill Sefydlu fframwaith boddhad dinasyddion Mwy o fannau mynediad Blaenoriaethau e-wasanaeth ac ati.	Dinasyddion yn derbyn y gwasanaethau iawn y tro cyntaf yn y dull gorau iddynt hwy, yn benodol y rhai sy'n agored i niwed a'r anodd eu cyrraedd.
Darparu gwasanaethau ar y cyd â'r dinasyddion Cynnwys unigolion a chymunedau yn y gwaith o lunio a darparu gwasanaethau, gwella hyblygrwydd ac ymatebolrwydd.	Strategaeth genedlaethol ar y gweill i weddnewid ymgysylltiad y cyhoedd Gwelliannau eiriolaeth Llwybrau gwasanaeth mwy hyblyg Hyrwyddo safonau gwasanaeth cenedlaethol cychwynnol Gwell gwybodaeth am berfformiad.	Ymgysylltu cryf rhwng dinasyddion a gwasanaethau, wedi'i ategu gan safonau gwasanaeth cenedlaethol a gwell gwybodaeth. Gwasanaethau yn newid ar sail dinasyddion partneriaeth, craffu, cydgynhyrchu ac ymgynghori effeithiol.
Cydweithio yn lleol Cyrff lleol yn cydweithio i sicrhau gwell gwasanaethau ac y rhennir canlyniadau i ddinasyddion.	Sefydlu byrddau gwasanaeth lleol Grwp cyntaf o gytundebau gwasanaeth lleol yn ei le Datblygu dull cynhwysol o graffu.	Gwell canlyniadau gwasanaeth i ddinasyddion drwy gytundebau gwasanaeth lleol ledled Cymru, sydd o fudd i iechyd, gofal cymdeithasol, swyddi, yr amgylchedd lleol.
Cydweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol Partneriaethau gweithredu effeithiol ar gyfer gwasanaethau sy'n arbenigol, yn gymhleth neu'n ddibynnol ar rwydweithiau.	Cydweithredu ymarferol i wella prosesau rheoli gwastraff, adfywio, gofal am blant sy'n agored i niwed, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg 14-19, trafnidiaeth, tai cymdeithasol a gwasanaethau eraill.	Cydweithredu rhanbarthol effeithiol sy'n darparu ar gyfer dinasyddion ac yn gwella perfformiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus.
Codi gwerth y bunt Gymreig Gwneud defnydd gwell o adnoddau i gynnal a gwella gwasanaethau.	Cadw at y targed arbedion effeithlonrwydd. Blaenoriaethau cenedlaethol yn eu lle ar rannu gwasanaethau. Ystod o welliannau caffael.	Y gwasanaethau cyhoeddus yn rhyddhau arbedion effeithlonrwydd o £800 miliwn y flwyddyn er mwyn helpu'r rheng flaen.
Creu gweithlu i'r gwasanaeth cyhoeddus sydd o safon fyd-eang Datblygu rheolwyr ac arweinwyr i sicrhau perfformiad gorau posib sefydliadau a rhyddhau potensial llawn a thalent gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus.	Cyfleoedd i ddatblygu sydd ar gael i 3,000 o arweinwyr a rheolwyr yng Nghymru. Prosiectau sylfaenol datblygu'r gweithlu. Porth recriwtio gan y gwasanaeth cyhoeddus i Gymru gyfan.	Bydd arweinwyr a rheolwyr y gwasanaeth cyhoeddus yn fwy deheuig wrth arloesi er mwyn llwyddo, ymgysylltu â'r gweithlu a'i ysgogi a chyflawni mewn cydweithrediad ag eraill.
Llywodraeth, adnoddau a pherfformiad Llywodraeth y Cynulliad yn delio'n fwy ag arweinyddiaeth wyneb yn wyneb, cael gwared ar rwystrau i ddarparu, cael gwared ar feichiau biwrocrataidd, hyrwyddo gwell rheoli perfformiad, llywodraethu a gwybodaeth ac adrodd yn flynyddol ar wasanaethau.	Tîm Perfformio Cymru yn ei le, gan ategu rôl darparu gwasanaeth gweinidogion a swyddogion. Rhaglen Perfformio a Llywodraethu ar y gweill, gan gynnwys y cam cyntaf mewn gwell gwybodaeth a hyfforddiant Polisi rheoleiddio ac arolygu newydd yn ei le.	Perthynas gyflenwi wedi'i gweddnewid rhwng Llywodraeth y Cynulliad a gwasanaethau, gan adfywio'r broses o wella gwasanaethau allweddol a symud adnoddau o fiwrocratiaeth i ddarparu gwasanaeth.

7.4 Gweithredu'r rhaglen hon fydd un o'r heriau pwysicaf i Lywodraeth y Cynulliad a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru dros y blynyddoedd i ddod. Bydd yn troi'r uchelgeisiau sydd wedi'u nodi yn adroddiad Beecham yn realiti. Bydd yn ein gosod ar y trywydd iawn i fod yn wlad fach enghreifftiol o ran gwella gwasanaeth cyhoeddus. Bydd hynny'n rhywbeth gwerth chweil ynddo'i hun. Ond, yn llawer pwysicach na hynny, bydd yn dda i bobl Cymru.

Datganiadau polisi ac ymgyngoriadau cysylltiedig cyfredol ac ar gyfer y dyfodol

Mae *Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni Ar Draws Ffiniau* yn rhoi fframwaith cyffredinol ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ddatblygu ymhellach mewn nifer o ddatganiadau polisi ac ymgyngoriadau penodol. Yn eu plith mae'r rhain:

Eisoes wedi'i gyhoeddi

Lansiwyd *Y Wlad Sy'n Dysgu: Gweledigaeth Ar Waith* ar 26 Hydref, gan nodi'r strategaeth sy'n ceisio gweddnewid addysg a dysgu gydol oes yn ystod y cyfnod hyd at 2010 a thu hwnt.

Ymgyngoriadau diweddar a chyfredol

Ymgynghorwyd eisoes ar *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol,* ynghyd â'r cynllun gweithredu. Ailystyried ein gwasanaethau cymdeithasol fel bod defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'u teuluoedd sydd wedi'u haddysgu'n well, yn meddu ar wybodaeth well ac wedi'u grymuso, ac sy'n cael cymorth gwybodaeth haws cael ati, ehangach ac sydd ar gael yn annibynnol, yn gallu ac yn disgwyl chwarae rôl fwy gweithredol, wrth reoli eu sefyllfa eu hunain, asesu eu hanghenion eu hunain, dewis eu darpariaeth gofal eu hunain, a rheoli eu hadnoddau. I ddilyn hyn ceir strategaeth â datganiad terfynol.

Tuag at e-Gymru: Ymgynghoriad ar Ddefnyddio Grym TGCh yng Nghymru. Prif nod yr ymgynghoriad yw cael barn pobl ar sut y gallwn wneud y defnydd gorau o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i sicrhau gwell Cymru. Daeth i ben ar 31 Hydref 2006. Caiff ei ddilyn gan weledigaeth weithredol ar wasanaethau cyhoeddus a e-alluogir erbyn dechrau 2007.

Creu'r Cysylltiadau: creu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid - egwyddorion craidd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Nod yr ymgynghoriad yw ceisio barn pobl ar y gyfres gyntaf erioed o egwyddorion craidd ar wasanaeth cwsmeriaid, i'w

cymhwyso ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Daw i ben ar 30 Tachwedd 2006. Caiff ei ddilyn gan gynllun gweithredu gwasanaeth cwsmeriaid.

Ymgyngoriadau a datganiadau ar gyfer y dyfodol hyd fis Mawrth 2007

Iechyd a gofal cymdeithasol

Bydd *fframwaith gwasanaethau cymunedol* (a gaiff ei gyhoeddi ym mis Ionawr) yn nodi'r egwyddorion sylfaenol a chynnwys gwasanaeth iechyd modern a leolir yn y gymuned, gan gysylltu themâu'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol, comisiynu, gwella ansawdd a rheoli cyflyrau cronig a sut maent yn ymwneud â gweithredu *Cynllun Oes* yn gyffredinol.

Iechyd Cyhoeddus

Mae ymgynghoriad ar Strategaeth Iechyd Cyhoeddus ar y gweill ar gyfer dechrau 2007. Bydd y Strategaeth yn seiliedig ar bolisi a chyngor sy'n bodoli eisoes, a bydd yn gyfrwng i wreiddio datblygiadau parhaus ym maes iechyd cyhoeddus a chanolbwyntio ar weithredu. Yn benodol rydym yn rhagweld y bydd i'r ddogfen ffocws cryf ar natur aml-sectoraidd iechyd cyhoeddus a phwysigrwydd partneriaethau - yn enwedig mewn perthynas ag Adolygiad Beecham o Wasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru a datblygu a gweithredu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles lleol. Bydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn elfen hanfodol o'r Strategaeth Iechyd Cyhoeddus.

Y sector gwirfoddol

Ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu strategol i hyrwyddo cam nesaf Cynllun statudol y Sector Gwirfoddol, yn dilyn adroddiad y Comisiwn Annibynnol, a'r bartneriaeth rhwng y sector gwirfoddol a Llywodraeth y Cynulliad. Trefnwyd ymgynghoriad ar gyfer dechrau 2007.

Llywodraeth leol

Mae datganiad polisi llywodraeth leol i ddilyn *Rhyddid a Chyfrifoldebau* wedi'i drefnu ar gyfer Mawrth 2007. Gan fapio'r ffordd ymlaen i lywodraeth leol, gan gynnwys sut gall chwarae ei rolau arwain cymunedol a darparu gwasanaeth yn y ffordd orau, caiff y datganiad ei osod o fewn cyd-destun ein dull o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, sydd wedi'i nodi yn y papur hwn.

Canllawiau ar Gynlluniau Lleol

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau ar gyfer tri o'r cynlluniau sy'n ofynnol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol, sef y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (gan gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol i blant a phobl ifanc), y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Strategaeth Gymunedol.

Bydd y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn ffurfio'r datganiad diffiniol, y cytunir arno'n lleol, o flaenoriaethau strategol i blant a phobl ifanc a fydd yn hyrwyddo'r cynlluniau lleol eraill.

Bydd y Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn mynd i'r afael â sicrhau gwell iechyd a lles a gwasanaethau iechyd a chymdeithasol effeithiol.

Bydd y canllawiau ar Strategaethau Cymunedol yn ystyried y gwerthusiad diweddar a'r materion sy'n deillio o'r datganiad polisi llywodraeth leol (gweler uchod), ceir cysylltiadau cryfach â chanllawiau allweddol eraill a chaiff gefnogaeth 'banc' o arferion nodedig.

Er y bydd yr ymgyngoriadau ar wahân, byddwn yn achub ar y cyfle i sicrhau bod y cynlluniau hyn wedi'u rhyng-gysylltu'n effeithiol.